Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Adolygiad ôl-ddeddfwriaethol o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019

Hydref 2025

senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddCyllid**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cyllid**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCyllid@senedd.cymru**
X: **@SeneddCyllid**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Adolygiad ôl-ddeddfwriaethol o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019

Hydref 2025

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddCyllid**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Peredur Owen Griffiths AS**
Plaid Cymru



**Mike Hedges AS**
Llafur Cymru



**Rhianon Passmore AS**
Llafur Cymru



**Sam Rowlands AS**
Ceidwadwyr Cymreig

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd ... 5**

**Argymhellion a chasgliadau ... 7**

**1. Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 ... 10**

Rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ... 10

Ymestyn pwerau'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ... 10

Adolygiad ôl-ddeddfwriaethol ... 11

Cylch gorchwyl ... 12

Casglu tystiolaeth ... 13

Barn y Pwyllgor ... 13

**2. Effaith Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 ... 14**

Llwyth gwaith ... 14

Canfyddiad y cyhoedd a gwaith allgymorth ... 15

Cymharu arferion gorau ... 18

Barn y Pwyllgor ... 19

**3. Cwynion ar ffurf heblaw yn ysgrifenedig ... 22**

Ymwybyddiaeth o'r gallu i wneud cwynion llafar ... 23

Barn y Pwyllgor ... 25

**4. Ymchwiliadau'r Ombwdsmon ar ei liwt ei hun ... 27**

Ymchwiliadau'r Ombwdsmon ar ei liwt ei hun hyd yn hyn ... 27

Diffiniad o 'gamweinyddu' ... 29

Gofyniad ar gyfer ymgynghori ... 30

Dyblygu posibl ... 33

Defnyddio argymhellion ... 35

Tryloywder ymchwiliadau arfaethedig .......... 37

Barn y Pwyllgor .......... 39

**5. Effeithiolrwydd gallu'r Ombwdsmon i ymchwilio i driniaeth feddygol breifat mewn llwybr gofal iechyd cyhoeddus/preifat .......... 42**

Defnyddio'r pŵer i ymchwilio i driniaeth feddygol breifat .......... 42

Barn y Pwyllgor .......... 46

**6. Gwaith safonau cwynion .......... 47**

Cwmpas polisi cwynion enghreifftiol .......... 48

Defnyddio a chasglu data ymdrin â chwynion .......... 49

Adborth .......... 52

Barn y Pwyllgor .......... 53

**7. Materion eraill .......... 55**

Rhannu gwybodaeth .......... 55

Gwaharddiad statudol .......... 57

Ehangu awdurdodaeth i ysgolion .......... 58

Barn y Pwyllgor .......... 60

**8. Cost a gwerth am arian .......... 62**

Costau a manteision .......... 62

Darpariaethau archwilio .......... 63

Costau anuniongyrchol .......... 63

Barn y Pwyllgor .......... 64

**Atodiad 1 : Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar. .......... 66**

**Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig .......... 67**

Gwybodaeth Ychwanegol .......... 67

# Rhagair y Cadeirydd

Mae Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 (Deddf 2019) yn ddarn o ddeddfwriaeth nodedig. Fe'i datblygwyd mewn ymateb i alwadau taer am ddiwygiadau i gryfhau annibyniaeth a hygyrchedd swyddfa'r Ombwdsmon ac i foderneiddio'r broses gwyno a sicrhau bod yr Ombwdsmon yn gallu gwasanaethu'r cyhoedd yn well.

Cyflwynodd Deddf 2019 bwerau newydd i'r Ombwdsmon gyda'r nod o wella mynediad at gyfiawnder, gwella tryloywder, a hyrwyddo tegwch ledled gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys galluogi'r Ombwdsmon i dderbyn cwynion llafar fel mater o drefn a'r pŵer i gynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun.

Mae'n amser priodol i fyfyrio ar sut y mae'r ddeddfwriaeth wedi gweithio yn ymarferol ac a yw'r Ddeddf wedi cyflawni'r canlyniadau arfaethedig. Dyma'r sylfaen i'n gwaith fel Pwyllgor wrth i ni ystyried a yw fframwaith deddfwriaethol yr Ombwdsmon yn parhau i fod yn addas i'r diben, a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol wedi dod i'r amlwg wrth gyflwyno'r Ddeddf, ac a yw wedi darparu gwerth am arian wrth gyflawni ei hamcanion.

Trwy'r adolygiad hwn, rydym wedi clywed gan amrywiaeth o randdeiliaid ac arbenigwyr sydd wedi ein helpu i ddeall effaith Deddf 2019 a nodi meysydd sydd angen rhagor o eglurder, cymorth, neu ddiwygio o bosibl.

Cawsom wybod bod y pwerau newydd wedi cael eu croesawu'n eang a'u bod wedi galluogi'r Ombwdsmon i wneud ei waith yn fwy rhagweithiol a chynhwysol. Fodd bynnag, fe wnaethom hefyd nodi meysydd lle bydd angen rhagor o eglurder, cymorth, neu fireinio o bosibl er mwyn sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn parhau i gyflawni'r canlyniadau arfaethedig er budd y cyhoedd yng Nghymru.

Hefyd, mae ein gwaith wedi dangos bod craffu ar ôl deddfu ar Ddeddfau sydd wedi'u pasio gan y Senedd yn rhan hanfodol o'r cylch deddfwriaethol—gan sicrhau bod deddfau yn parhau i wasanaethu'r cyhoedd yn effeithiol.

Yn ystod cyfnod y Senedd hon rydym wedi gwneud nifer o argymhellion i Lywodraeth Cymru y dylai pob Bil perthnasol gynnwys darpariaethau ar gyfer adolygiad ôl-weithredu. Mae'r adolygiad hwn wedi cadarnhau gwerth y cyfryw graffu wrth gryfhau atebolrwydd a gwella ansawdd deddfu yng Nghymru.

Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y gwaith hwn. Roedd eu tystiolaeth yn hollbwysig wrth i ni lunio ein canfyddiadau a'n hargymhellion.

**Peredur Owen Griffiths AS**
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

# Argymhellion a chasgliadau

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Swyddfa'r Ombwdsmon yn adolygu'r strategaeth ymgysylltu allgymorth er mwyn sicrhau mynediad teg at ei gwasanaethau, gan ganolbwyntio'n benodol ar ei hymdrechion i ymgysylltu â grwpiau anodd eu cyrraedd. Dylai roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd erbyn iddi gyflwyno ei hamcangyfrif ar gyfer 2027-28. .......... Tudalen 21

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Ombwdsmon ystyried:

- sut i hyrwyddo'r gallu i unigolion gyflwyno cwynion llafar; a
- sut y gellid defnyddio technoleg i wella'r gwaith o brosesu cwynion llafar, gan gynnwys gwella gallu unigolion i wneud cwynion llafar mewn ieithoedd heblaw'r Gymraeg a'r Saesneg. .......... Tudalen 26

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ombwdsmon yn cynnal adolygiad blynyddol o ddemograffeg unigolion sy'n cyflwyno cwynion llafar er mwyn nodi tueddiadau ac asesu a yw'r strategaeth allgymorth yn effeithiol yn y maes hwn. .......... Tudalen 26

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ombwdsmon yn adolygu'r broses ar gyfer cynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun ac yn nodi unrhyw feysydd y gellid eu symleiddio er mwyn caniatáu i'r ymchwiliad gael ei gwblhau o fewn amserlenni byrrach. .......... Tudalen 39

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ombwdsmon yn ystyried symleiddio'r broses ymgynghori ar gyfer ymchwiliadau ar ei liwt ei hun, fel y nodwyd o wersi a ddysgwyd o ymchwiliadau blaenorol, a'i bod yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar gynnydd erbyn iddi gyflwyno ei hamcangyfrif ar gyfer 2027-28. .......... Tudalen 40

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ombwdsmon yn myfyrio ar ddull gweithredu swyddfeydd ombwdsmyn eraill o ran cynnal ymchwiliadau ar eu liwt eu hunain ac yn ystyried sut y gallai gynnal ymchwiliadau mewn ffordd fwy ystwyth. .......... Tudalen 40

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ombwdsmon yn parhau i ymgysylltu'n gynnar â rhanddeiliaid wrth gynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun, er mwyn nodi ac atal unrhyw ddyblygu gwaith gyda sefydliadau eraill. .......... Tudalen 41

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ombwdsmon, fel mater o egwyddor, yn rhannu adroddiadau cyhoeddedig ymchwiliadau ar ei liwt ei hun

gydag awdurdodau perthnasol heblaw'r rhai sy'n destun yr ymchwiliad, a'i bod yn eu hannog i weithredu unrhyw argymhellion a wneir. ............................................ Tudalen 41

**Argymhelliad 9.** Wrth gyhoeddi canfyddiadau ymchwiliadau ar ei liwt ei hun, mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ombwdsmon, fel mater o drefn, hefyd yn cynnwys:

- esboniad o pam y dewiswyd pwnc yr ymchwiliad ar ei liwt ei hun; ac
- arolwg i bennu barn rhanddeiliaid ar y broses o ddewis y pwnc sy'n destun ymchwiliad. ............................................ Tudalen 41

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Ombwdsmon gadw'r pŵer i ymchwilio i faterion yn ymwneud â gwasanaethau cysylltiedig ag iechyd preifat mewn cwyn llwybr cyhoeddus/preifat nes bod digon o dystiolaeth uniongyrchol yn cael ei derbyn i awgrymu bod angen newid. ............................................ Tudalen 46

**Argymhelliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod swyddfa'r Ombwdsmon yn parhau â'i gwaith o ddatblygu'r Awdurdod Safonau Cwynion er mwyn lleihau ymhellach nifer y cwynion sy'n ymwneud ag ymdrin â chwynion. ................ Tudalen 54

**Argymhelliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ombwdsmon yn adolygu'r data sy'n cael ei gasglu fel rhan o'r gwaith ar yr Awdurdod Safonau Cwynion, gan ganolbwyntio ar y cydbwysedd rhwng data meintiol ac ansoddol er mwyn sicrhau bod y data a gesglir yn rhoi'r darlun llawn ac yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer nodi meysydd eraill i'w gwella............................................ Tudalen 54

**Argymhelliad 13.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod unrhyw waith ymchwil yn ymwneud ag ymdrin â chwynion sy'n cael ei wneud gan yr Ombwdsmon yn y dyfodol yn seiliedig ar samplau mwy ac yn adlewyrchu demograffig ehangach er mwyn cryfhau'r dystiolaeth a ddaw i law fel sylfaen ar gyfer unrhyw welliannau. ............................................ Tudalen 54

**Argymhelliad 14.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ombwdsmon yn adolygu ei strategaeth ar gyfer ymwneud â'r cyfryngau er mwyn sicrhau cymaint o sylw â phosibl wrth gyhoeddi adroddiadau a sicrhau bod canfyddiadau'r Ombwdsmon yn cyrraedd cynulleidfa ehangach ac yn cael cymaint o effaith â phosibl. ............................................ Tudalen 60

**Argymhelliad 15.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ombwdsmon yn ymgymryd ag ymarferiad modelu i bennu effaith ehangu awdurdodaeth ei swyddfa i gynnwys cwynion yn ymwneud ag ysgolion a bod hyn yn cynnwys dadansoddi

goblygiadau o ran llwyth achosion neu oblygiadau ariannol, ac yn rhannu'r canfyddiadau hyn erbyn hydref 2026. ....... Tudalen 61

**Argymhelliad 16.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ombwdsmon yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddeall goblygiadau ymarferol ehangu awdurdodaeth yr Ombwdsmon i gwmpasu cwynion yn ymwneud ag ysgolion, ac yn rhannu'r canfyddiadau hyn erbyn hydref 2026. ....... Tudalen 61

**Casgliad 1.** Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai pob Bil cyhoeddus a gyflwynir i'r Senedd gynnwys darpariaethau ar gyfer adolygiad ôl-ddeddfwriaethol. ....... Tudalen 13

**Casgliad 2.** Mae'r Pwyllgor o'r farn bod Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 yn darparu sylfaen statudol effeithiol sy'n cefnogi ac yn galluogi gwaith Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. ....... 13

**Casgliad 3.** Mae'r Pwyllgor o'r farn bod Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 yn darparu templed arfer da ar gyfer rôl ombwdsmon yn rhyngwladol ac yn parhau i fod yn fframwaith deddfwriaethol effeithiol sy'n addas i'r diben. ....... Tudalen 20

**Casgliad 4.** Oherwydd y ffaith nad yw rhai o ddarpariaethau Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 wedi'u defnyddio'n llawn eto, mae'r Pwyllgor yn dod i'r casgliad nad oes modd penderfynu a yw'r Ddeddf wedi darparu gwerth am arian wrth gyflawni ei hamcanion, ac y bydd y materion hyn yn parhau i fod yn destun craffu yn ystod ein sesiynau blynyddol gyda'r Ombwdsmon yn edrych ar y gyllideb a goruchwyliaeth. ....... Tudalen 65

# 1. Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019

## Rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

**1.** Cafodd rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon) ei sefydlu gan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 (Deddf 2005).[1] Rôl yr Ombwdsmon yw:[2]

- ymchwilio i gwynion bod rhywbeth wedi mynd o'i le gyda gwasanaethau cyhoeddus Cymru a ddarperir gan gyrff sy'n dod o dan awdurdodaeth yr Ombwdsmon;
- gweithio gyda chyrff cyhoeddus i wella gwasanaethau cyhoeddus a safonau ymddygiad ym maes llywodraeth leol ledled Cymru; a
- ystyried cwynion bod cynghorwyr Cymru wedi torri eu Cod Ymddygiad.[3]

## Ymestyn pwerau'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus

**2.** Er y barnwyd bod rôl yr Ombwdsmon yn gweithio'n effeithiol a bod Deddf 2005 yn cael ei hystyried yn batrwm o ddeddfwriaeth ombwdsmon dda, ers 2013 bu galwadau i ymestyn pwerau'r rôl.[4]

**3.** Ar ôl ystyriaeth gan y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol a'r Pwyllgor Cyllid yn y Pedwerydd Cynulliad[5], cyflwynodd Pwyllgor Cyllid y Pumed Senedd Fil Pwyllgor (y Bil) i ddiweddaru Deddf 2005.[6]

**4.** Bwriad polisi'r Bil, fel y'i nodir yn y Memorandwm Esboniadol, oedd:

- gwella cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal;
- amddiffyn y rhai sydd fwyaf agored i niwed;
- bod yn fwy ymatebol i ddinasyddion;

[1] Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Pwy ydym ni
[2] Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005
[3] Nid newidiwyd y rôl hon fel rhan o Ddeddf 2019 ac mae y tu allan i gwmpas yr adolygiad hwn.
[4] Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru), Memorandwm Esboniadol, tudalen 8
[5] Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru), Memorandwm Esboniadol, tudalen 8
[6] Y Pwyllgor Cyllid, Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019

- hybu gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus ac wrth ymdrin â chwynion; a
- cyfrannu at gyflawni nodau llesiant.[7]

**5.** Pasiwyd y Bil gan y Senedd ar 20 Mawrth 2019[8] a chafodd Gydsyniad Brenhinol ar 22 Mai 2019[9].

**6.** Daeth darpariaethau Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 (Deddf 2019) i rym yn raddol. Daeth adrannau 77 i 88 o'r Ddeddf i rym ar y diwrnod y cafodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol.[10] Daeth y darpariaethau eraill i rym ar 23 Gorffennaf 2019 pan wnaeth Gweinidogion Cymru y rheoliadau cychwyn angenrheidiol.[11]

**7.** Roedd Deddf 2019 yn ailddatgan darpariaethau a oedd wedi'u cynnwys yn Neddf 2005[12] ond roedd hefyd yn cynnwys darpariaethau a oedd yn rhoi pwerau newydd i'r Ombwdsmon wneud y canlynol:

- derbyn cwynion nad ydynt ar ffurf ysgrifenedig (cwynion llafar);
- galluogi ymchwiliadau ar ei liwt ei hun;
- ymchwilio i'r elfen gwasanaeth iechyd preifat mewn llwybr iechyd cyhoeddus/preifat;
- ymgymryd â rôl mewn perthynas â safonau a gweithdrefnau ymdrin â chwynion.[13]

## Adolygiad ôl-ddeddfwriaethol

**8.** Mae adran 73 o Ddeddf 2019 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Senedd "cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ddiwedd y cyfnod 5 mlynedd, baratoi a chyhoeddi adroddiad ar weithrediad ac effaith y Ddeddf hon yn ystod y cyfnod 5 mlynedd". Mae Deddf 2019 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Senedd "ymgynghori â'r cyfryw bersonau sydd, ym marn y Senedd, yn briodol" fel rhan o'r adolygiad hwnnw.[14]

---

[7] Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru), Memorandwm Esboniadol, tudalen 15
[8] Y Cyfarfod Llawn, Agenda, 20 Mawrth 2019
[9] Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf Cynulliad Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019
[10] Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, Adran 77
[11] Rheoliadau Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 (Cychwyn) 2019
[12] Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus 2005
[13] Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019
[14] Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, adran 73

Roedd y cyfnod pum mlynedd yn para o ddyddiad y Cydsyniad Brenhinol tan 21 Mai 2024.

**9.** Fel y Pwyllgor sy'n gyfrifol am oruchwylio Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fel y'i nodir o dan Reol Sefydlog 18A, y Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) sy'n gyfrifol am adolygu Deddf 2019.[15]

## Cylch gorchwyl

**10.** Yn ei gyfarfod ar 12 Rhagfyr 2024[16] ystyriodd y Pwyllgor ei ddull o gynnal yr adolygiad a chytunodd i adolygu'r canlynol fel rhan o'i gylch gorchwyl:

- Gweithrediad ac effeithiolrwydd Deddf 2019 hyd yma ac a yw wedi gwella rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon) a chynyddu hyder y cyhoedd ynddo.
- Y ffordd y caiff y broses o dderbyn cwynion llafar gan yr Ombwdsmon ei chymhwyso'n ymarferol ac a yw gallu'r Ombwdsmon i nodi gofynion ar gyfer gwneud cwyn mewn canllawiau wedi gwella cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal i ddinasyddion Cymru.
- Sut y mae'r Ombwdsmon wedi arfer y pŵer i gynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun ac a yw'r pŵer hwn wedi darparu mecanwaith i amddiffyn y rhai sydd fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas.
- Pa mor effeithiol yw gallu'r Ombwdsmon i ymchwilio i driniaeth feddygol breifat (gan gynnwys gofal nyrsio) ar lwybr iechyd cyhoeddus/preifat.
- Rôl yr Ombwdsmon mewn perthynas â safonau a gweithdrefnau ymdrin â chwynion ac i ba raddau y mae darpariaethau Deddf 2019 wedi gwella'r modd y mae cyrff o fewn awdurdodaeth yr Ombwdsmon yn ymdrin â chwynion.
- I ba raddau y mae amcanion polisi Deddf 2019 wedi'u bodloni, unrhyw ddatblygiadau yn y pum mlynedd ers cyflwyno'r Ddeddf a sut y mae'r Ddeddf yn cymharu ag arfer gorau presennol.

---

[15] Rheolau Sefydlog Senedd Cymru yn 18A
[16] Agenda'r Pwyllgor Cyllid, 12 Rhagfyr 2024

- Costau a buddion Deddf 2019, sut y mae'r rhain yn cymharu â'r amcangyfrifon a nodir yn y Memorandwm Esboniadol a ph'un a gyflawnwyd gwerth am arian.

### Casglu tystiolaeth

**11.** Cynhaliodd y Pwyllgor chwe sesiwn dystiolaeth rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2025, a chlywodd dystiolaeth gan yr Ombwdsmon ar ddau achlysur. Mae rhestr lawn o'r rhai a ddarparodd dystiolaeth lafar wedi'i chynnwys yn Atodiad 1.

**12.** Cyhoeddodd y Pwyllgor ymgynghoriad a gynhaliwyd rhwng dydd Gwener 10 Ionawr a dydd Gwener 4 Ebrill 2025, a chafwyd 12 ymateb. Yn sgil y pwerau yn Neddf 2019 i ganiatáu i bobl wneud cwynion llafar i'r Ombwdsmon, cytunodd y Pwyllgor i dderbyn ymatebion i'r ymgynghoriad ar ffurf lafar hefyd, ond ni chafwyd unrhyw ymatebion o'r fath. Mae rhestr o bawb a gyflwynodd dystiolaeth ysgrifenedig wedi'i nodi yn Atodiad 2.

**13.** Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb sydd wedi cymryd rhan yn yr adolygiad hwn.

## Barn y Pwyllgor

**14.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cyfle i gynnal yr adolygiad ôl-ddeddfwriaethol hwn o Ddeddf 2019 i fesur gweithrediad ac effeithiolrwydd pwerau newydd yr Ombwdsmon. Mae adolygiadau o'r fath yn hanfodol er mwyn sicrhau bod pob Bil a gyflwynir yn y Senedd yn cyflawni ei amcanion ac yn darparu gwerth am arian, ac rydym yn credu bod y darpariaethau statudol ar gyfer adolygiad yn Neddf 2019 yn gwasanaethu fel model arfer gorau ar gyfer yr holl ddeddfwriaeth a gyflwynir gerbron y Senedd.

**Casgliad 1.** Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai pob Bil cyhoeddus a gyflwynir i'r Senedd gynnwys darpariaethau ar gyfer adolygiad ôl-ddeddfwriaethol.

**15.** Er bod ein hadolygiad wedi nodi rhai meysydd i'w gwella o ran gweithredu Deddf 2019, a drafodir yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn, ar y cyfan rydym yn credu bod darpariaethau Deddf 2019 wedi'u gweithredu'n llwyddiannus. Yn benodol, gwnaethom ganfod bod Deddf 2019 yn darparu sylfaen statudol effeithiol sy'n cefnogi ac yn galluogi'r Ombwdsmon i ymgymryd â rôl hanfodol ym mywyd cyhoeddus Cymru.

**Casgliad 2.** Mae'r Pwyllgor o'r farn bod Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 yn darparu sylfaen statudol effeithiol sy'n cefnogi ac yn galluogi gwaith Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

# 2. Effaith Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019

## Llwyth gwaith

**16.** Mae ymateb yr Ombwdsmon i'r ymgynghoriad yn nodi bod y swyddfa wedi gwneud y canlynol ers mis Ebrill 2019:

- ymdrin â 15,000 o gwynion am wasanaethau cyhoeddus;
- datrys cwynion yn gynnar neu gadarnhau bod sail i'w cwynion ar gyfer dros 2,900 o bobl;
- gwneud dros 7,600 o argymhellion i ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus, gyda 20-30 y cant o'r argymhellion yn ymwneud â gwelliannau tymor hwy fel hyfforddiant neu adborth i staff, adolygiadau o arferion presennol neu argymell y dylai gweithdrefn newid;
- wedi cyhoeddi 38 o adroddiadau budd y cyhoedd a phum adroddiad thematig;
- wedi gweld cynnydd o 37 y cant yn ei llwyth achosion rhwng 2019/20 a 2023/24.[17]

**17.** O ran effaith Deddf 2019 ar lwyth achosion, derbyniodd yr Ombwdsmon fod rhagamcanu cwynion yn fater cymharol anodd ond eglurodd fod y cynnydd yn y llwyth achosion wedi arafu ers cyflwyno Deddf 2019. Dywedodd fod y Memorandwm Esboniadol yn rhagweld y byddai cwynion yn cynyddu rhwng 5 y cant a 12 y cant y flwyddyn dros y pum mlynedd ar ôl cyflwyno'r Ddeddf. Dywedodd:

> *"... this would have resulted in an increase in complaints of 7,300 and 11,600. If we look at where we actually ended up, then we've ended up in the midpoint; we've ended up, after the five years, at just over 9,800 complaints."*[18]

**18.** Ychwanegodd:

[17] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
[18] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 30 Ebrill 2025, paragraff 32

> *"... if we hadn't had the 2019 Act, if we'd been running with the 2005 Act and the old powers, then, actually, complaints could have got as high as, at that midpoint, 12,000. So, we've actually managed to—. Based on that projection, we've actually managed to slow down the increase ..."*[19]

## Canfyddiad y cyhoedd a gwaith allgymorth

**19.** Pan ofynnwyd iddi am ganfyddiad y cyhoedd o'r Ombwdsmon ers cyflwyno Deddf 2019, eglurodd yr Ombwdsmon:

> *"... [the] research we've done recently shows that confidence in the office and the work that we do is now at 79 per cent within the Welsh public. That's gone up 9 per cent since 2020. So, I think I'm very assured by that high level of confidence that people have in the work that we do, and I think the new powers have helped us to extend our impact."*[20]

**20.** Dywedodd yr Athro Chris Gill, Athro Astudiaethau Cyfreithiol-Gymdeithasol ym Mhrifysgol Glasgow, wrthym fod yr her fwyaf sy'n wynebu pob ombwdsmon yn ymwneud â mynediad at gyfiawnder a bod yn hygyrch i bawb sydd eisiau defnyddio'r gwasanaeth. Aeth ymlaen i ddweud:

> *"I think that there's still a kind of perception, which I think is to some extent still justified, that the ombudsman is a sort of middle-class remedy for middle-class people to some extent, and that it doesn't quite have that broad reach to all different types of demographic groups that it perhaps should have."*[21]

**21.** Nododd yr Athro Naomi Creutzfeldt, Athro'r Gyfraith a Chymdeithas ym Mhrifysgol Caint, bwysigrwydd allgymorth cyhoeddus i hybu gwybodaeth y cyhoedd am y pwerau sydd gan yr ombwdsmon a sut y maent wedi cael eu defnyddio.[22] Ychwanegodd:

> *"... although you said everyone in Wales knows about the ombudsman, I'm not sure if people would then even approach them. I think there's a different thing about knowing the*

[19] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 30 Ebrill 2025, paragraff 38
[20] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 30 Ebrill 2025, paragraff 16
[21] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2025, paragraff 51
[22] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2025, paragraff 47

*ombudsman exists and what it is actually they can help me with."*[23]

**22.** Cytunodd yr Athro Chris Gill fod cyrraedd grŵp demograffig llawer ehangach yn wirioneddol bwysig.[24] Cyfeiriodd yr Athro Gill at waith y Sefydliad Ombwdsmyn Rhyngwladol, sydd wedi cyhoeddi papur arfer gorau ar allgymorth yn ddiweddar.[25]

**23.** Cytunodd yr Ombwdsmon fod ceisio ymgysylltu â'r holl ddemograffeg yn heriol, ac ychwanegodd:

> *"… there's a real risk for us, and all ombuds schemes, to be fair, that we do attract a certain group of people within the community that are able to find us, are able to make complaints, are able to put their arguments forward, and that that means that some are less able and less likely to come to us. So, there is a risk there."*[26]

**24.** Dywedodd yr Ombwdsmon mai un o flaenoriaethau strategol y swyddfa yw canolbwyntio ar ymgysylltu â phobl iau, pobl o gefndiroedd ethnig a chenedlaethol amrywiol, siaradwyr Cymraeg, pobl sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol a phobl anabl. Er bod gwaith wedi cael ei wneud yn y maes hwn, roedd yr Ombwdsmon yn cydnabod bod y data'n parhau i ddangos bod y bobl hyn yn llai tebygol, mewn rhai achosion, o fynd at yr ombwdsmon a gwneud cwyn.[27]

**25.** O ran sut y mae'r swyddfa yn estyn allan at y grwpiau hyn gydag adnoddau cyfyngedig, eglurodd yr Ombwdsmon ei bod wedi mabwysiadu dull â mwy o ffocws a bod hyn wedi arwain at fwy o gwynion yn cael eu gwneud gan bobl ag anableddau a phobl o gefndiroedd ethnig amrywiol.[28]

**26.** Esboniodd yr Ombwdsmon fod gwaith allgymorth y swyddfa wedi'i dargedu at gymunedau y mae'n awyddus i'w gweld yn gwneud mwy o gwynion, er mwyn sicrhau eu bod nhw'n ymwybodol o'r swyddfa ac, os oes rhwystrau iddynt

---

[23] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2025, paragraff 58
[24] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2025, paragraff 52
[25] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2025, paragraff 53
[26] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2025, paragraff 12
[27] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2025, paragraff 13
[28] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2025, paragraff 14

ddefnyddio'r gwasanaethau, bod yr Ombwdsmon yn deall natur y rhwystrau hynny.[29] Ychwanegodd:

> *"I think one of the feedbacks we've had is that we need to improve our resources in different languages, so, where we've got information about who we are, what we do, how people can access our services, we need to provide that in other languages than English and Welsh. And so, we've been doing more of that this year as well."*[30]

**27.** Cyfeiriodd swyddog yr Ombwdsmon at y gwaith sy'n mynd rhagddo i ymgysylltu ag unigolion mewn ieithoedd heblaw'r Gymraeg a'r Saesneg. Mae hyn yn cynnwys:

- rhai staff yn gallu ymdrin â galwadau mewn ieithoedd eraill;
- gwella ystod ieithoedd yr adnoddau cyhoeddedig;
- cyflwyno tab cyfieithu ar y wefan er mwyn cyfieithu tudalennau i ieithoedd heblaw'r Gymraeg a'r Saesneg.[31]

**28.** Nododd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru fod ymwybyddiaeth rhai pobl hŷn o rôl yr Ombwdsmon a sut i godi pryderon am wasanaethau cyhoeddus yn parhau i fod yn isel. Yn ôl y Comisiynydd, er ei bod yn ymddangos bod mynediad at weithdrefnau cwyno yn gwella, mae angen mwy o bwyslais ar roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl am gynnydd eu cwynion. Dywedodd:

> *"Un mater sy'n cael ei godi'n aml ynghylch trefniadau cwyno (yn gyffredinol yn hytrach na dim ond o safbwynt Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru) yw diffyg cyfathrebu ynghylch hynt cwynion a'r hyn sy'n digwydd."*[32]

**29.** O ran ymgysylltu â phobl hŷn, nododd yr Ombwdsmon fod y data sydd ganddynt yn dangos bod ymwybyddiaeth o'r Ombwdsmon o fewn y grŵp hwn yn debyg i'r ymwybyddiaeth o ombwdsmyn eraill y DU.[33] Fodd bynnag, ychwanegodd eu bod yn derbyn llai o gwynion gan unigolion dros 65 oed, o bosibl oherwydd bod pobl eraill yn cyflwyno cwynion ar eu rhan:

---

[29] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2025, paragraff 15
[30] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2025, paragraff 16
[31] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2025, paragraff 46
[32] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
[33] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2025, paragraff 26

> *"We find that daughters, sons, perhaps advocates, organisations like Llais, are supporting people who are in that category and we obviously work closely with them as well."*[34]

**30.** Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad canlynol:

> *"… we're not specifically targeting old people, because we've had to make a decision as to where we put our resources and we've chosen to focus on those areas at the moment. But we do feel that there are other mechanisms for older people to access our services through advocates and through the support they receive off family members."*[35]

## Cymharu arferion gorau

**31.** Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd yr Ombwdsmon:

> *"… gyda chefnogaeth y pwerau rhagweithiol a roddwyd i ni, mae ein swyddfa yn parhau i fod ar flaen y gad o ran arfer gorau ymhlith ombwdsmyn yng ngwledydd Prydain ac yn rhyngwladol."*[36]

**32.** Pan ofynnwyd i'r Ombwdsmon a yw Deddf 2019 yn parhau i adlewyrchu arferion gorau, dywedodd y gall Cymru a'r Senedd fod yn falch o'r ddeddfwriaeth, ac er bod rhai meysydd y gellid eu gwella, mae'n parhau i adlewyrchu arferion gorau chwe blynedd ar ôl ei chyflwyno. Ychwanegodd fod deddfwriaeth ombwdsmyn eraill yn y DU wedi dyddio o'i gymharu â deddfwriaeth Cymru, ac y byddent yn hoffi gweld pwerau tebyg i swyddfa'r Ombwdsmon.[37]

**33.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, nododd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban (SPSO) fod Deddf 2019 yn golygu bod yr Ombwdsmon, yn fwy na heb, yn bodloni safonau rhyngwladol ar gyfer ombwdsmon (y rhai mwyaf arwyddocaol o'r rhain yw Egwyddorion Fenis, a fabwysiadwyd gan Gyngor Ewrop yn 2019). Yn y meysydd lle nad yw'r Ombwdsmon yn bodloni safonau rhyngwladol, nododd SPSO fod hynny am nad ydynt yn briodol oddi mewn i fframwaith cyfansoddiadol y DU.[38]

---

[34] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2025, paragraff 27
[35] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2025, paragraff 28
[36] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
[37] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 30 Ebrill 2025, paragraff 105
[38] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban

**34.** Yn ei dystiolaeth, nododd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Iwerddon (NIPSO) fod Deddf 2019 yn cyd-fynd ag arferion gorau yn gyffredinol. Ychwanegodd fod Deddf 2019 yn ymestyn cylch gwaith yr Ombwdsmon i feysydd triniaeth feddygol breifat, darpariaeth nad yw'n bodoli yng Ngogledd Iwerddon. Ym marn NIPSO, mae'r ddarpariaeth hon yn elfen bwysig o Ddeddf 2019 oherwydd bod llawer o unigolion yn derbyn gofal a thriniaeth y GIG a gofal a thriniaeth preifat.[39]

**35.** Pan ofynnwyd i NIPSO am y farn gyffredinol am Ddeddf 2019, nododd fod parch mawr at y ddeddfwriaeth Gymreig. Ychwanegodd fod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn aelod o fwrdd Cymdeithas yr Ombwdsmyn, sy'n cyfarfod fel grŵp yn rhannol er mwyn gwneud y canlynol:

> *"… look across the legislation, we look across the practices of the different offices, and we learn from each other."*[40]

**36.** O ran swyddogion ombwdsmon eraill yn y DU, roedd yr Athro Chris Gill o'r farn eu bod ychydig yn genfigennus o bwerau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Er bod gan rai ohonynt yr un pwerau â'r Ombwdsmon, nododd yr Athro Gill nad oes gan unrhyw swyddfa arall yr holl ddarpariaethau ychwanegol. Ym marn yr Athro Gill, mae Deddf 2019 ar flaen y gad o ran deddfwriaeth ombwdsmon domestig.[41] Ychwanegodd:

> *"And if we look at this beyond these shores, then I think, internationally, the Act also represents many elements of good practice, particularly in relation to extending the ombudsman's powers to have this ability to investigate at own initiative, which I think is really important …"*[42]

**37.** Er ei bod yn derbyn bod gan Gymru un o'r fframweithiau ombwdsmon mwyaf blaengar yn y DU, roedd yr Athro Naomi Creutzfeldt o'r farn y gallai'r Ombwdsmon gynnal mwy o ymchwiliadau ar ei liwt ei hun.[43]

## Barn y Pwyllgor

**38.** Dywedodd nifer o randdeiliaid wrthym fod Deddf 2019 yn parhau i adlewyrchu arferion gorau ar gyfer deddfwriaeth ombwdsmyn yn rhyngwladol,

[39] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Iwerddon (NIPSO)
[40] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion 7 Mai 2025, paragraff 16
[41] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2025, paragraff 20
[42] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2025, paragraff 21
[43] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Yr Athro Naomi Creutzfeldt

chwe blynedd ers iddi ddod i rym. Mae'n destun balchder i ni fod y darn hwn o ddeddfwriaeth y Senedd yn parhau i fod yn enghraifft o arfer da ac yn uchel ei barchu ymhlith y gymuned ombwdsmyn. Rydym yn cydnabod bod angen gwaith o hyd i fireinio'r broses o weithredu Deddf 2019 mewn rhai meysydd, ac efallai y bydd angen ystyried newidiadau deddfwriaethol yn y dyfodol (trafodir y rhain yn fanylach yn ddiweddarach yn yr adroddiad). Serch hynny, rydym yn dod i'r casgliad bod Deddf 2019 yn uchel ei pharch o hyd a'i bod yn parhau i fod yn addas i'r diben.

**Casgliad 3.** Mae'r Pwyllgor o'r farn bod Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 yn darparu templed arfer da ar gyfer rôl ombwdsmon yn rhyngwladol ac yn parhau i fod yn fframwaith deddfwriaethol effeithiol sy'n addas i'r diben.

**39.** Yn ystod ein sesiynau craffu blynyddol gyda'r Ombwdsmon, rydym yn clywed yn rheolaidd sut y mae'r swyddfa yn addasu er mwyn sicrhau ei bod yn dyrannu ei chyllideb yn briodol i ddelio â llwyth achosion cynyddol.[44] Felly, rydym yn croesawu bod Deddf 2019 yn cefnogi ymdrechion yr Ombwdsmon i gynnal llwyth achosion y gellir ymdopi ag ef.

**40.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r gwaith sydd wedi cael ei wneud hyd yn hyn i gynyddu hyder y cyhoedd yn y swyddfa ac yn ei gwaith allgymorth wedi'i dargedu. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd gan randdeiliaid bod modd gwneud mwy i sicrhau bod gwasanaethau'r Ombwdsmon yn hysbys ac yn hygyrch i bawb yng Nghymru, ac rydym yn credu bod angen gwneud mwy o waith yn y maes hwn.

**41.** Roedd yn dda gennym glywed am y gwaith y mae'r Ombwdsmon wedi'i wneud i ganiatáu i unigolion wneud cwynion mewn ieithoedd heblaw'r Gymraeg a'r Saesneg. Nodwn fod y swyddfa wedi defnyddio set sgiliau ei staff ar adegau pan mae unigolion wedi gofyn am wneud cwynion mewn ieithoedd eraill, a hoffem weld yr arfer hwn yn parhau, lle bo'n briodol.

**42.** Nodwn hefyd y gwaith sydd wedi cael ei wneud gan yr Ombwdsmon hyd yn hyn i ddarparu adnoddau mewn ieithoedd heblaw'r Gymraeg a'r Saesneg er mwyn cynyddu ymgysylltiad, yn ogystal ag ymdrechion i nodi tueddiadau mewn demograffeg sy'n effeithio ar y math o bobl sy'n ymgysylltu â chyrff ombwdsmyn mewn awdurdodaethau eraill. Serch hynny, rydym yn annog yr Ombwdsmon i wneud rhagor o waith i werthuso effaith y dull gweithredu hwn er mwyn sicrhau

[44] Y Pwyllgor Cyllid, Craffu Blynyddol ar Waith Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Amcangyfrif 2025-26, Tachwedd 2024, tudalennau 15-19

ei fod yn parhau i fod yn effeithiol. Yn benodol, mae angen gwybod pam mae rhai grwpiau o bobl yn llai tebygol o gysylltu â'r Ombwdsmon, er gwaethaf y ffaith eu bod wedi cael eu targedu yn strategaeth ymgysylltu'r Ombwdsmon.

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Swyddfa'r Ombwdsmon yn adolygu'r strategaeth ymgysylltu allgymorth er mwyn sicrhau mynediad teg at ei gwasanaethau, gan ganolbwyntio'n benodol ar ei hymdrechion i ymgysylltu â grwpiau anodd eu cyrraedd. Dylai roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd erbyn iddi gyflwyno ei hamcangyfrif ar gyfer 2027-28.

# 3. Cwynion ar ffurf heblaw yn ysgrifenedig

**43.** Roedd Deddf 2005 yn nodi bod yn rhaid i bob cwyn sy'n cael ei chyflwyno i'r Ombwdsmon neu ei chyfeirio ato fod ar ffurf ysgrifenedig. Fodd bynnag, roedd gan yr Ombwdsmon bŵer dewisol i dderbyn cwyn nad yw ar ffurf ysgrifenedig os yw'n credu bod hynny'n briodol fesul achos.[45]

**44.** Roedd darpariaethau Deddf 2019 yn golygu na fyddai'n ofynnol i'r Ombwdsmon arfer disgresiwn bellach, a byddai'n gallu nodi mewn canllawiau sut i wneud cwynion, gan gynnwys ar lafar. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn egluro bod un o fwriadau'r darpariaethau hyn fel a ganlyn:

> *"… byddai'n cael gwared ar stigma ac yn gwella cyfiawnder cymdeithasol; gan sicrhau bod pob llais yn cael ei glywed, gan gynnwys y rhai sydd â phroblemau llythrennedd a rhifedd a galluoedd amrywiol o ran rheoli gohebiaeth a thasgau gweinyddol.*[46]

**45.** Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, trwy gael gwared ar y gofyniad i wneud cwyn yn ysgrifenedig, byddai modd sicrhau mynediad i wasanaethau'r Ombwdsmon yn y dyfodol a chaniatáu i'w swyddfa ddatblygu canllawiau i ymateb i ddatblygiadau yn y dyfodol mewn dulliau cyfathrebu electronig a datblygiadau ym maes technoleg.[47]

**46.** Roedd pawb a rannodd eu barn ar y gallu i wneud cwynion llafar o blaid y darpariaethau hyn.

**47.** Roedd NIPSO o'r farn bod y pŵer i dderbyn cwynion llafar yn hanfodol i'r ddeddfwriaeth[48], tra bod Ombwdsmon a Chomisiynydd Gwybodaeth Iwerddon yn credu ei fod yn gyfleuster pwysig iawn er mwyn bod yn hygyrch, gan ychwanegu na fyddai llawer o bobl wedi gwneud cwynion oni bai am y llwybr hwn.[49]

---

[45] Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru), Memorandwm Esboniadol, tudalen 15
[46] Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru), Memorandwm Esboniadol, tudalen 16
[47] Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru), Memorandwm Esboniadol, tudalen 17
[48] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion 7 Mai 2025, paragraff 30
[49] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion 7 Mai 2025, paragraff 25

**48.** Roedd Ysgrifennydd y Cabinet o'r farn bod cynnwys y pŵer i dderbyn cwynion ar ffurf heblaw ysgrifenedig yn "gam buddiol".[50]

**49.** Yn ôl Archwilydd Cyffredinol Cymru:

> *"Rydym yn parhau i ystyried y dylai'r pŵer i dderbyn cwynion ar ffurf heblaw yn ysgrifenedig fod yn fuddiol i bobl agored i niwed, ac rydym yn ei weld yn ffafriol i'r egwyddor o hygyrchedd, ond nid ydym wedi archwilio'r defnydd o'r pŵer hwn yn ymarferol, felly ni allwn wneud sylwadau pellach."*[51]

**50.** Cafwyd sicrwydd gan gynrychiolydd o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro fod y pŵer i dderbyn cwynion ar ffurf heblaw yn ysgrifenedig yn gweithio yn ymarferol, a bod y pŵer wedi sicrhau bod gwasanaethau'r Ombwdsmon ar gael i fwy o bobl yn ein cymunedau a'n cymdeithas.[52] Ychwanegodd am y pŵer:

> *"… it's opened up the ability to go to the ombudsman for more people than it perhaps would have, because of language difficulties, potentially, disability and literacy issues that we know can be an issue in some communities and for some people."*[53]

**51.** Nododd yr Ombwdsmon mai un o'r grwpiau targed y mae'n ceisio eu cyrraedd, o ran cwynion llafar, yw pobl o leiafrifoedd ethnig neu'r rhai nad oes ganddynt genedligrwydd Prydeinig.[54] Aeth ymlaen i esbonio:

> *"… we very much want oral complaints to increase, because it's an important part of our accessibility work, and we really want to be able to reach those people in our communities that would struggle the most, as you say, to fill in a form or do something online."*[55]

## Ymwybyddiaeth o'r gallu i wneud cwynion llafar

**52.** Ers cyflwyno Deddf 2019 mae dros 700 o bobl wedi cyflwyno cwynion yn y modd hwn.[56] Roedd yr Ombwdsmon yn cydnabod bod nifer y cwynion llafar a

---

[50] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip i'r Pwyllgor Cyllid, 11 Mehefin 2025
[51] Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Pwyllgor Cyllid, 19 Mehefin 2025
[52] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2025, paragraff 120
[53] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2025, paragraff 103
[54] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 30 Ebrill 2025, paragraff 67
[55] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 30 Ebrill 2025, paragraff 68
[56] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

broseswyd yn is na rhagamcanion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (a oedd yn amcangyfrif y byddai tua 10 y cant o gwynion yn rhai llafar[57]) ond nododd fod nifer y cwynion llafar yn cynyddu bob blwyddyn.[58]

**53.** O ran nifer y cwynion llafar, dywedodd yr Ombwdsmon:

> *"We haven't set targets for it. It's really led by the complainant and the nature of their complaint as to whether we take an oral complaint. We try to use that route only when it's appropriate, because it does take up a lot of staff time. It means about 30 to 45 minutes for a member of staff to do an oral complaint. So, it's absolutely right that we offer it, but we only need to use it when it's really needed."[59]*

**54.** Mae'r Ombwdsmon yn nodi bod capasiti ar gael i gyflwyno mwy o gwynion llafar, ond eu bod yn cael eu harwain gan y galw ac "nad ein bwriad yw gosod targedau". Aeth yr Ombwdsmon ymlaen i ddweud y canlynol:

> *"Yr hyn sy'n bwysig yw bod gan achwynwyr ddewis ynghylch sut maent yn cael mynediad at OGCC ac, yn aml, mae'n well gan ddefnyddwyr gwasanaeth ddefnyddio dulliau eraill fel trwy lenwi ein ffurflen gwyno ar ein gwefan a/neu gyda chymorth corff eiriolaeth, fel Llais."[60]*

**55.** Ychwanegodd swyddog yr Ombwdsmon nad oes unrhyw dargedau wedi'u gosod gan nad oes diben gwario adnoddau ar faterion nad allwn helpu pobl â nhw".[61]

**56.** Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, mae'r Ombwdsmon yn nodi bod 76 y cant o'r ymatebwyr i waith ymchwil a gomisiynwyd ledled y wlad yn gwybod eu bod yn gallu cwyno wrth yr Ombwdsmon ar lafar, tra bod 55 y cant yn gwybod eu bod yn gallu defnyddio Iaith Arwyddion Prydain (BSL) i gwyno. Eglurodd:

> *"Mae hyn yn dangos bod lefel yr ymwybyddiaeth o'r opsiwn hwn er mwyn gwneud cwyn yn gyffredinol dda, ond y gellid ei gwella o hyd. Felly, rydym yn achub ar gyfleoedd i godi ymwybyddiaeth o'r pŵer hwn drwy ein gwaith allgymorth a'n sianeli cyfathrebu. Fodd bynnag, wrth wneud hynny, rydym bob amser yn*

[57] Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru), Memorandwm Esboniadol, tudalen 88
[58] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 30 Ebrill 2025, paragraff 56
[59] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 30 Ebrill 2025, paragraff 57
[60] Llythyr gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i'r Pwyllgor Cyllid, 30 Mai 2025
[61] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2025, paragraff 42

*ymwybodol o'n capasiti fel swyddfa, o ystyried y cynnydd o 37% yn ein llwyth achosion ers 2019."*[62]

**57.** Cadarnhaodd swyddog yr Ombwdsmon fod y swyddfa wedi derbyn cwyn mewn BSL.[63]

**58.** Eglurodd swyddog yr Ombwdsmon fod yr holl opsiynau ar gyfer gwneud cwyn i'r Ombwdsmon yn cael eu hysbysebu'n glir ar-lein, ac er bod y rhan fwyaf o bobl yn defnyddio'r ffurflen gwyno ar-lein, mae'r rhai sy'n penderfynu gwneud cwyn ar lafar yn gallu cael mynediad hawdd at y gwasanaeth hwn.[64]

**59.** Pan ofynnwyd i swyddog yr Ombwdsmon sut y mae'r swyddfa yn asesu'r angen am gŵyn lafar, eglurodd fod y gwasanaeth yn cael ei gynnig yn dilyn cais am wneud cwyn lafar, naill ai drwy apwyntiad neu ar unwaith mewn amgylchiadau penodol.[65] Fodd bynnag, pan ddaw'n amlwg nad yw'r gŵyn yn dod o dan awdurdodaeth yr Ombwdsmon, mae'r achwynydd yn cael ei gyfeirio at y sefydliad mwyaf priodol i gael cyngor ac nid yw'n bwrw ymlaen â chŵyn ffurfiol i'r Ombwdsmon.

## Barn y Pwyllgor

**60.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r darpariaethau yn Neddf 2019 sy'n caniatáu i unigolion wneud cwynion llafar i'r Ombwdsmon fel mater o drefn. Mae'r ddarpariaeth hon yn cefnogi gwaith yr Ombwdsmon wrth sicrhau bod gwasanaethau ar gael i ddemograffeg ehangach, ac mae'n fanteisiol iawn i bobl agored i niwed sy'n ceisio iawn.

**61.** Mae'n dda gennym nodi bod ymchwil a gomisiynwyd gan yr Ombwdsmon yn dangos lefelau uchel o ymwybyddiaeth o'r gallu i wneud cwyn lafar, yn enwedig o ystyried bod hon yn broses gymharol newydd i'r swyddfa. Nodwn nad yw nifer y cwynion llafar wedi cyrraedd rhagamcanion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol eto, ac rydym yn croesawu'r gwaith y mae'r swyddfa yn ei wneud i gynyddu lefel yr ymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth hon trwy ei gwaith ymgysylltu ehangach. Roedd yn dda iawn gennym glywed bod yr Ombwdsmon wedi ystyried cwyn a gyflwynwyd mewn BSL.

**62.** Mae'r Pwyllgor yn nodi y gallai prosesu cwynion llafar fod yn fwy llafurddwys na chwynion ysgrifenedig. Fodd bynnag, rydym yn credu bod modd gwneud mwy

[62] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
[63] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2025, paragraff 52
[64] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2025, paragraffau 37 a 38
[65] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2025, paragraff 34

i annog unigolion i ddefnyddio'r darpariaethau hyn. Hefyd, rydym yn annog yr Ombwdsmon i edrych ar ffyrdd o ddefnyddio technoleg i'w gwneud yn llai llafurus, er enghraifft trwy ddefnyddio trawsgrifio awtomatig a fyddai'n cynorthwyo staff i ymdrin â chwynion o'r fath ac yn gwella prosesau.

**63.** Er ein bod yn derbyn bod y gwasanaethau hyn yn arwain at gost ariannol, byddem hefyd yn annog yr Ombwdsmon i edrych ar sut y gallai ddefnyddio datblygiadau mewn technoleg cyfieithu er mwyn caniatáu i unigolion wneud cwynion llafar mewn unrhyw iaith o'u dewis. Rydym o'r farn y byddai hyn yn cefnogi gwaith yr Ombwdsmon wrth ymgysylltu ag unigolion o gefndiroedd ethnig a chenedlaethol amrywiol. Byddai hyn hefyd yn adeiladu ar waith diweddar Swyddfa'r Ombwdsmon o gyfieithu ei gwefan a'i hadnoddau cyhoeddedig i ystod ehangach o ieithoedd gan ganiatáu i unigolion ymgysylltu â'r Ombwdsmon yn eu dewis iaith.

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Ombwdsmon ystyried:

- sut i hyrwyddo'r gallu i unigolion gyflwyno cwynion llafar; a
- sut y gellid defnyddio technoleg i wella'r gwaith o brosesu cwynion llafar, gan gynnwys gwella gallu unigolion i wneud cwynion llafar mewn ieithoedd heblaw'r Gymraeg a'r Saesneg.

**64.** Rydym yn derbyn esboniad yr Ombwdsmon ynghylch pam nad oes targedau yn cael eu gosod ar gyfer nifer y cwynion llafar y mae'n eu derbyn. Fodd bynnag, credwn y dylai'r Ombwdsmon gasglu mwy o wybodaeth am gwynion llafar er mwyn nodi tueddiadau o ran demograffeg y rhai sy'n cyflwyno cwynion o'r fath. Byddai'r dull hwn yn caniatáu i'r Ombwdsmon asesu effaith gwaith allgymorth i hyrwyddo'r gallu i wneud cwynion llafar i ddemograffeg ehangach.

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ombwdsmon yn cynnal adolygiad blynyddol o ddemograffeg unigolion sy'n cyflwyno cwynion llafar er mwyn nodi tueddiadau ac asesu a yw'r strategaeth allgymorth yn effeithiol yn y maes hwn.

# 4. Ymchwiliadau'r Ombwdsmon ar ei liwt ei hun

**65.** O dan adran 4 o Ddeddf 2019, mae gan yr Ombwdsmon y pŵer i gynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun, waeth a oes cwyn wedi'i gwneud ai peidio.[66] Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y bydd y pŵer hwn:

> *"… yn ffordd o amddiffyn y rhai sydd fwyaf agored i niwed a rhoi sylw i urddas unigolion, gan gynnwys pobl sydd ag anawsterau dysgu, problemau iechyd meddwl a'r henoed."*[67]

**66.** Mae'r Ombwdsmon yn nodi dau fath o ymchwiliadau ar ei liwt ei hun:

- Ymchwiliadau estynedig - sy'n digwydd pan fydd yr Ombwdsmon eisoes yn ymchwilio i broblem ac yn ymestyn yr ymchwiliad i faterion neu gwynion eraill; ac
- Ymchwiliadau ehangach – pan fydd ymchwiliad ar ei ben ei hun yn cael ei gynnal nad yw'n ymwneud â chwyn a wnaed gan unigolyn.[68]

## Ymchwiliadau'r Ombwdsmon ar ei liwt ei hun hyd yn hyn

**67.** Mae Memorandwm Esboniadol Deddf 2019 yn rhoi cost ar gyfer un i ddau ymchwiliad ehangach gan yr Ombwdsmon ar ei liwt ei hun bob blwyddyn a chyfanswm o 10-15 ymchwiliad ar ei liwt ei hun dros y cyfnod asesu pum mlynedd.[69] Hyd yn hyn, mae'r Ombwdsmon wedi cwblhau dau ymchwiliad ar ei liwt ei hun.[70]

**68.** Cydnabu'r Ombwdsmon fod yr ail ymchwiliad ar ei liwt ei hun wedi cymryd gormod o amser, ac eglurodd pam mai dim ond dau ymchwiliad ar ei liwt ei hun sydd wedi'u cwblhau ers 2019:

> *"… we're still learning about how to use these powers, and, certainly, I learnt a lot through that process; it was my first own-initiative. We've identified through a learning process on that*

[66] Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, adran 4
[67] Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru), Memorandwm Esboniadol, tudalen 18
[68] Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Pennod Newydd yn Datblygu, Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2023/24, Gorffennaf 2024, tudalen 45
[69] Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru), Memorandwm Esboniadol, tudalen 106
[70] Y Pwyllgor Cyllid, ymateb i'r Ymgynghoriad: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

> *how we can make those sort of investigations more tight and efficient in the future."*[71]

**69.** Mewn ymateb i'r cwestiwn a oes gan yr Ombwdsmon gyllideb ddigonol i gynyddu nifer yr ymchwiliadau ar ei liwt ei hun, eglurodd yr Ombwdsmon:

> *"… efallai y bydd rhai problemau adnoddau yn gysylltiedig ag ymchwiliadau ehangach ar ei liwt ei hun, ond ni ragwelir y byddai hyn yn arwain at gynnydd mewn costau. Byddem yn lliniaru'r effaith hon drwy symleiddio ein proses, canolbwyntio cwmpas ymchwiliadau a thrwy wneud defnydd gwell o ddata."*[72]

**70.** Esboniodd yr Ombwdsmon sut y bydd penodi swyddog data yn ddiweddar yn helpu'r swyddfa i gyflawni'r nod o ddefnyddio data yn well[73] gan fod y swyddfa'n dibynnu yn eithaf helaeth ar ei data ei hun ym meysydd cwynion a gwaith achos.[74] Fodd bynnag, nododd yr Ombwdsmon fod y dulliau amrywiol o gasglu data a ddefnyddir gan sectorau eraill yn ei gwneud hi'n anodd i'r Ombwdsmon gymharu data:

> *"… not only difference between sectors, different health boards will gather data in different ways, and if we're trying to find something consistent across the piece, then that can be a challenge."*[75]

**71.** Hefyd, cyfeiriodd yr Ombwdsmon at broses fwy effeithlon yng Ngogledd Iwerddon o gynnal ymchwiliadau'r Ombwdsmon ar ei liwt ei hun.[76]

**72.** Esboniodd yr NIPSO, er y gallai ymchwiliad ar ei liwt ei hun gymryd 12-18 mis, sy'n gyflymach nag ymchwiliadau a gynhelir gan yr Ombwdsmon, mae'r cyfnod hwn yn hirach nag y byddai'n dymuno.[77] O ganlyniad, mae'r NIPSO wedi cyflwyno system newydd sy'n defnyddio cam asesu'r broses ar ei liwt ei hun mewn ffordd hyblyg er mwyn penderfynu a yw'r mater yn fwy addas ar gyfer ymchwiliad llawn ar ei liwt ei hun neu adroddiad trosolwg bach ar ei liwt ei hun. Eglurodd:

---

[71] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 30 Ebrill 2025, paragraff 75
[72] Llythyr gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i'r Pwyllgor Cyllid, 30 Mai 2025
[73] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 30 Ebrill 2025, paragraff 87
[74] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2025, paragraff 88
[75] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2025, paragraff 92
[76] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 30 Ebrill 2025, paragraff 77
[77] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion 7 Mai 2025, paragraff 36

> *"These early stage investigations do not progress to Ombudsman's 'findings' but set out the current situation and make recommendations for improvement. This approach is useful where there is an acceptance of a need for change and evidence that things are improving through actions being taken already."*[78]

## Diffiniad o 'gamweinyddu'

**73.** Mae'r Athro Chris Gill yn nodi'r cyfyngiad yn Neddf 2019 a Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Iwerddon 2016, sy'n cyfyngu ar bŵer yr Ombwdsmon i gynnal ymchwiliad ar ei liwt ei hun i achosion lle mae amheuaeth resymol o gamweinyddiaeth systemig, gan awgrymu y gallai hyn gael ei ystyried ymhellach.[79]

**74.** Yn ystod y drafodaeth gyda'r Pwyllgor, eglurodd yr Athro Gill nad yw'r term camweinyddu systemig wedi cael ei ddiffinio'n glir, ond mae'n debyg ei fod yn cyfeirio at gamweinyddu a allai gynnwys rhyw fath o broblem systemig.[80]

**75.** Aeth yr Athro Gill ymlaen i awgrymu y gallai'r pwyslais ar faterion systemig atal yr Ombwdsmon rhag defnyddio pwerau i ymchwilio ar ei liwt ei hun i faterion unigol neu faterion sy'n effeithio ar grwpiau bach. Daeth i'r casgliad canlynol:

> *"… I think my view is that you have passed a piece of legislation that is imposing some limitations on what the ombudsman can do, and those limitations are not reflected in all ombudsman legislation internationally, where the general principle is that the ombudsman should have as much discretion as possible."*[81]

**76.** Dywedodd yr Ombwdsmon ei bod yn ddefnyddiol bod y ddeddfwriaeth yn cyfeirio at 'amheuaeth' o gamweinyddiaeth systemig'. Nododd:

> *"That gives, we feel, scope for wider interpretation, and wouldn't prevent us going after specific issues, because we would back it up with other evidence and data to show what's happening in that sector or why we think there would be wider problems. Just*

---

[78] Y Pwyllgor Cyllid, ymateb i'r Ymgynghoriad: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Iwerddon(NIPSO)
[79] Y Pwyllgor Cyllid, ymateb i'r Ymgynghoriad: Yr Athro Chris Gill
[80] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2025, paragraff 36
[81] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2025, paragraff 40

> *because a complaint comes in or an issue has affected just one or two people, the nature of that issue could then very much suggest that there's a wider issue that would allow us—and we feel the legislation does allow us—to pursue that."*[82]

## Gofyniad ar gyfer ymgynghori

**77.** Mae adran 4(2)(c) o Ddeddf 2019 yn nodi, cyn i'r Ombwdsmon ddechrau ymchwiliad o dan adran 4, fod yn rhaid i'r Ombwdsmon "ymgynghori â'r cyfryw bersonau y mae'r Ombwdsmon o'r farn ei bod yn briodol ymgynghori â hwy".[83]

**78.** Mae adran 18 o Ddeddf 2019 yn rhoi rhagor o fanylion am yr hyn y mae'n rhaid i'r broses ymgynghori ei gynnwys:

- paratoi a chyflwyno cynnig ymchwilio i'r awdurdod rhestredig yr ymchwilir iddo ac unrhyw berson y'i hadwaenir mewn modd negyddol yn y cynnig;[84]
- rhoi cyfle i'r awdurdod rhestredig ac unrhyw berson y'i hadwaenir mewn modd negyddol yn y cynnig wneud sylwadau ar y cynnig ymchwilio.[85]

**79.** Mae'r Ombwdsmon yn credu "bod y broses ymgynghori bresennol y mae'n rhaid inni ei chwblhau er mwyn lansio ymchwiliad ehangach ar ein liwt ein hunain yn rhy hir a beichus".[86]

**80.** Dywedodd y cyn-Ombwdsmon, Nick Bennett, mai'r cyfiawnhad cychwynnol dros yr ymgynghoriad dau gam oedd osgoi dull digyfeiriad o ddefnyddio pwerau'r Ombwdsmon i gynnal ymchwiliad ar ei liwt ei hun, ac aeth ymlaen i ddweud:

> *"… I think removing that disproportionate consultation process means that there'll be more resource available to actually get on with the job."*[87]

**81.** Er gwaethaf pryderon am y broses ymgynghori, nid oedd yr Ombwdsmon am i'r broses gael ei dileu'n gyfan gwbl. Yn hytrach, roedd hi o blaid ymgynghoriad un cam yn hytrach na dau gam, oherwydd:

---

[82] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2025, paragraff 65
[83] Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, adran 4(2)(c)
[84] Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, adran 18(2)
[85] Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, adran 18(5)
[86] Y Pwyllgor Cyllid, ymateb i'r Ymgynghoriad: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
[87] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion 7 Mai 2025, paragraff 121

> *"... that wouldn't reduce procedural fairness, and, actually, perhaps it would be less of a burden on public bodies to have to engage twice on the same process. Clearly, removing consultation would remove procedural fairness, and we wouldn't be suggesting that. So, we feel that what we're suggesting would be reasonable."*[88]

**82.** Nododd yr Archwilydd Cyffredinol nad yw'r posibilrwydd o ddileu'r gofyniad i ymgynghori yn ymddangos yn briodol, gan y gallai leihau tegwch gweithdrefnol a chael effaith niweidiol ar ddarparu gwasanaethau yn ymarferol. Aeth ymlaen i ddweud:

> *"Byddai dileu'r gofyniad ymgynghori dan anfantais i gyrff cyhoeddus sydd angen rhywfaint o "le" i fynd i'r afael â phroblemau adnoddau. Byddai colli ymgynghoriad yn lleihau'r cyfle i gyrff esbonio anghenion o'r fath ac o bosibl byddai'n lleihau'r tebygolrwydd y bydd yr Ombwdsmon yn ystyried y sefyllfa honno wrth benderfynu a yw'n briodol lansio ymchwiliad. Byddai dileu'r gofyniad am ymgynghori hefyd yn cynyddu'r risg o wastraffu adnoddau trwy ddyblygu."*[89]

**83.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> *"Mae'n bosibl na fyddai dileu'r gofyniad i ymgynghori o fudd i'r Ombwdsmon yn y tymor hir gan y gallai arwain at lai o gydweithredu gan y rhai y mae ymchwiliadau ar ei liwt ei hun yn effeithio arnynt."*[90]

**84.** Nododd yr Ombwdsmon fod gan yr NIPSO, sydd â phwerau i gynnal ymchwiliad ar ei liwt ei hun, broses symlach lle mae'n ofynnol i'r NIPSO baratoi cynnig ymchwiliad a'i gyflwyno i'r corff cyhoeddus y mae'n bwriadu ymchwilio iddo yn unig.[91] Nododd yr NIPSO fod Deddf 2019 wedi cyflwyno gofyniad nad yw'n bresennol yn y ddeddfwriaeth gyfatebol sy'n ei lywodraethu, gan egluro:

> *"The absence of this step has not been problematic in NI and there is an argument for consideration to be given to the removal of the requirement to generally consult those who may*

[88] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2025, paragraff 59
[89] Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Pwyllgor Cyllid, 19 Mehefin 2025
[90] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip i'r Pwyllgor Cyllid, 11 Mehefin 2025
[91] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

> *be affected or have an interest in Wales. Legislation regarding Ombudsman offices generally give significant discretion to the office holder and this should be no different for Own Initiative investigations and the requirements that must be adhered to should be the minimum necessary so as not to be a barrier to the Ombudsman's effective use of the power.* [92]

**85.** Dywedodd Ombwdsmon a Chomisiynydd Gwybodaeth Iwerddon wrth y Pwyllgor nad yw gofynion ymgynghori yn berthnasol iddynt ac nad ydynt yn ymgynghori ond pan fo angen.[93] O ganlyniad:

> *"… maybe not having to do such wide consultation allows us sometimes to be quite nimble."*[94]

**86.** Dywedodd yr Athro Chris Gill y gallai'r gofyniad i ymgynghori fod yn broblem a gellid symleiddio'r gofynion. Awgrymodd yr Athro Gill y gallai'r Ombwdsmon fod wedi gorddehongli gofynion y broses ymgynghori fel y'u hamlinellir yn Neddf 2019 ac aeth ymlaen i ddweud:

> *"I'm just wondering whether perhaps some of the over-engineering has come from the process that the ombudsman's office has adopted, rather than necessarily coming from the actual legislative provision itself."*[95]

**87.** Oherwydd y risgiau o gael ei herio ar ddefnyddio'r pŵer, eglurodd yr Ombwdsmon ei bod yn mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar risg o ddehongli'r ddeddfwriaeth ond y gallai, o hyn ymlaen, ystyried a yw prosesau mewnol cynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun wedi cael eu gorgymhlethu. Roedd yr Ombwdsmon wedi nodi un ffordd bosibl o liniaru'r risg o gael ei herio, sef cryfhau'r defnydd o ddata, gan y byddai corff cryf o dystiolaeth yn ymwneud â chamweinyddu systemig yn darparu sylfaen gadarn i symud ymlaen a chynnal yr ymchwiliad.[96]

**88.** Wrth symud ymlaen, dywedodd yr Ombwdsmon ei bod wedi nodi rhai gwersi a ddysgwyd a allai wneud y broses ymgynghori yn fwy effeithiol ac effeithlon. Roedd hyn yn cynnwys sicrhau nad yw'r ymgysylltiad cychwynnol â'r awdurdodau rhestredig sy'n destun ymchwiliad yn sgwrs hir. Y cyfan sydd angen

---

[92] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Iwerddon(NIPSO)
[93] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion 7 Mai 2025, paragraff 51
[94] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion 7 Mai 2025, paragraff 48
[95] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2025, paragraff 72
[96] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2025, paragraffau 62 a 63

yw darparu eglurder ar y broses, y meini prawf, a'r hyn a ddisgwylir gan y cyrff sy'n destun ymchwiliad.[97]

**89.** Hefyd, cyfeiriodd yr Ombwdsmon at newidiadau posibl yn y ffordd y cyflwynir canfyddiadau ar ôl cwblhau ymchwiliad ar ei liwt ei hun:

> *"We tend to gather a lot of evidence through the own-initiative investigations. So, presenting our findings in a succinct way, but backing it up with the evidence so that it's robust—we feel that that's something we can perhaps do more effectively in future reports, and we looked at that a lot in our recent report."*[98]

**90.** Myfyriodd yr Ombwdsmon y gallai cael cwmpas a chylch gwaith â mwy o ffocws ar gyfer ymchwiliad ar ei liwt ei hun, yn hytrach na chylchoedd gwaith ehangach yr ymchwiliadau ar ei liwt ei hun a gwblhawyd hyd yn hyn, ganiatáu i'r swyddfa gwblhau mwy o ymchwiliadau ond gyda ffocws mwy pendant.[99]

## Dyblygu posibl

**91.** Cafwyd tystiolaeth gymysg ynglŷn ag effaith dyblygu posibl.

**92.** Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol bod dyblygu "wedi ei osgoi'n llwyddiannus" gan nad yw wedi dod ar draws unrhyw achosion o ddyblygu rhwng ymchwiliadau'r Ombwdsmon ar ei liwt ei hun a'i archwiliadau a'i astudiaethau yntau.[100] Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet nad oedd hi'n ymwybodol o unrhyw achosion o ddyblygu chwaith.[101]

**93.** Mewn llythyr at y Pwyllgor a oedd yn cyfeirio at ymchwiliad yr Ombwdsmon ar ei liwt ei hun i wasanaethau gofalwyr, dywedodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) Cymru fod sawl awdurdod wedi nodi bod amseriad yr ymchwiliad yn gorgyffwrdd ag arolygiadau a gynlluniwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), gan ganolbwyntio ar faterion tebyg. Nododd ADSS Cymru:

[97] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2025, paragraff 56
[98] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2025, paragraff 56
[99] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2025, paragraff 57
[100] Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Pwyllgor Cyllid, 19 Mehefin 2025
[101] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip i'r Pwyllgor Cyllid, 11 Mehefin 2025

> *"In at least one case, there was a marked contrast between the two bodies' findings - raising questions about consistency and the value of coordination."*[102]

**94.** Aeth ADSS Cymru ymlaen i ddweud:

> *"… there is scope to strengthen alignment between the Ombudsman's investigatory work and existing inspection regimes. A more joined-up approach would reduce reporting burdens and better support the shared goal of improving outcomes for people who use services."*[103]

**95.** Nododd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ei bod yn cyfarfod â'r Ombwdsmon ddwywaith y flwyddyn ar lefel swyddogion gweithredol ond bod ganddynt bwyntiau cyswllt eraill ar lefel fwy gweithredol. Dywedodd:

> *"They've been very open about what they're planning to do. I can recall the ombudsman telling me that she wanted to make sure that we weren't about to do the piece of work that they were thinking of doing. But also to ask us if we have expertise or knowledge or content that we want to feed into that. We might have already done a piece of work, or we might have some data or some insight into a topic that can help them. So, I think it works well."*[104]

**96.** Esboniodd yr Ombwdsmon mai dim ond mewn meysydd nad ydynt yn dod i'r amlwg o bosibl trwy ei gwaith cwynion y mae'n bwriadu defnyddio pwerau i gynnal ymchwiliad ar ei liwt ei hun a chefnogi grwpiau sy'n ei chael hi'n anoddach cael mynediad at yr Ombwdsmon. Ychwanegodd:

> *"… I definitely didn't want to be using the powers to duplicate what other public bodies were doing. I wanted to use it to add to the conversation and the knowledge about the delivery of public services, and that's still very much my position."*[105]

**97.** O ran y pryderon penodol yn ymwneud â dyblygu posibl gyda'r gwaith sy'n cael ei wneud gan AGC, cadarnhaodd yr Ombwdsmon fod trafodaethau wedi'u

[102] Llythyr gan Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i'r Pwyllgor Cyllid, 20 Mehefin 2025
[103] Llythyr gan Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i'r Pwyllgor Cyllid, 20 Mehefin 2025
[104] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2025, paragraffau 113 a 114
[105] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2025, paragraff 69

cynnal gydag AGC cyn i'r Ombwdsmon gynnal ymchwiliad ar ei liwt ei hun ac nad oeddent wedi codi unrhyw bryderon am ddyblygu posibl. Nododd yr Ombwdsmon y byddai'r un dull yn cael ei ddefnyddio wrth gynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun yn y dyfodol:

> *"… it will continue to be our practice, because it's really important that we don't create a more cluttered space for where other inspectorates and other bodies—Audit Wales is the other example—are already working"*[106]

**98.** Yn yr un modd, pan ofynnwyd iddi am y potensial ar gyfer unrhyw ddyblygu neu aneglurder o ran rolau'r Ombwdsmon ac Archwilio Cymru, nododd yr Ombwdsmon na fyddai unrhyw risg yn y cyswllt hwn gan fod ei chylch gwaith yn fwy cul, gyda ffocws mwy pendant, na chylch gwaith Archwilio Cymru.[107]

## Defnyddio argymhellion

**99.** Caiff yr Ombwdsmon wneud argymhellion i'r cyrff cyhoeddus y mae'n ymchwilio iddynt. Os oes tystiolaeth o gamweinyddu systemig, ni all yr Ombwdsmon wneud argymhellion i wasanaethau cyhoeddus eraill yn yr un sector. Caiff yr Ombwdsmon "wahodd" cyrff perthnasol eraill i wneud gwelliannau tebyg, ond nid oes gan yr Ombwdsmon, o dan Ddeddf 2019, bwerau ffurfiol i fynd â hyn ymhellach.[108]

**100.** Dywedodd yr Ombwdsmon fod hyn yn cyfyngu ar y pwerau ehangach i weithredu ar ei liwt ei hun ar hyn o bryd. Yn benodol, o ran ymestyn argymhellion sydd wedi cael eu gwneud mewn perthynas ag awdurdodau yr ymchwiliwyd iddynt ar draws y sector, aeth yr Ombwdsmon ymlaen i ddweud:

> *"I think that is something we have said in our consultation to ask the committee to consider—that would add a bit more teeth to it, if we were able to say, 'Look, we've found this through our investigation, and we think this represents best practice and things that all local authorities, all health boards—or whatever the sector is that we're working in—should look at."*[109]

[106] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2025, paragraff 70
[107] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2025, paragraffau 77 a 79
[108] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
[109] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 30 Ebrill 2025, paragraff 23

**101.** Ychwanegodd yr Ombwdsmon:

> *"… I think from the point of view of fairness and our ability to engage with the public sector on this work, but also from the point of view of impact, and being able to improve services on the back of OI reports, then it would be advantageous for the legislation to allow us more scope in that respect."*[110]

**102.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y gallai fod yn fwy priodol i Archwilio Cymru ymdrin ag argymhellion ehangach gan ei bod yn bwysig osgoi cymylu rolau'r Ombwdsmon ac Archwilio Cymru.[111]

**103.** Pe bai'r Ombwdsmon yn gallu gwneud argymhellion ar gyfer y sector cyfan, nododd Ysgrifennydd y Cabinet fod perygl "y byddai rolau yr Ombwdsmon ac Archwilio Cymru yn cael eu cymylu".[112] Fodd bynnag, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol nad oes "angen am y fath bar ar argymhellion ehangach".[113]

**104.** Dywedodd AGIC nad yw'n ymwneud â'r argymhellion o reidrwydd, mae'n ymwneud â dylanwadu.[114]

**105.** Nododd yr NIPSO nad yw argymhellion yr ombwdsmon yn rhwymo mewn cyfraith,[115] tra nododd yr Athro Chris Gill:

> *"So, I wouldn't necessarily worry too much about whether you have the ability to make formal recommendations in particular contexts. In that sense, the ombudsman's work is inherently advisory and, as you've just suggested, is inherently about raising issues and opening them up for discussion rather than in any way seeking to enforce that."*[116]

---

[110] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2025, paragraff 74
[111] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip i'r Pwyllgor Cyllid, 11 Mehefin 2025
[112] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip i'r Pwyllgor Cyllid, 11 Mehefin 2025
[113] Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Pwyllgor Cyllid, 19 Mehefin 2025
[114] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2025, paragraff 152
[115] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion 7 Mai 2025, paragraff 38
[116] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2025, paragraff 45

## Tryloywder ymchwiliadau arfaethedig

**106.** Cododd rhanddeiliaid bryderon ynglŷn â pha mor dryloyw yw'r broses ar gyfer penderfynu ar themâu ar gyfer ymchwiliadau'r Ombwdsmon ar ei liwt ei hun.

**107.** Nododd yr Athro Naomi Creutzfeldt y gallai'r Ombwdsmon fod yn fwy tryloyw ynglŷn â sut y mae pynciau/meysydd i'w hymchwilio yn cael eu dewis.[117] Pan ofynnwyd iddi beth y gellid ei wneud i wella tryloywder, nododd yr Athro Creutzfeldt bwysigrwydd sicrhau dealltwriaeth well ymhlith y cyhoedd ynghylch pam mae ymchwiliadau'r Ombwdsmon ar ei liwt ei hun yn cael eu lansio. Gan gyfeirio at ymchwiliad yr Ombwdsmon ar ei liwt ei hun i ddigartrefedd fel enghraifft, dywedodd yr Athro Creutzfeldt y gallai'r Ombwdsmon egluro i'r cyhoedd pam mae angen archwilio'r mater, sut y mae'n effeithio ar y wlad, pam ei fod yn bwysig, a pha enghreifftiau sydd o bobl ddim yn cael eu trin yn deg.[118]

**108.** Dywedodd yr Athro Creutzfeldt:

> *"… I think the message would come across much stronger if there were even a preamble in the report of their own investigation, or if there were something on their website. I think it would just make it more accessible—not to separate the task, but to have it included in the final product."*[119]

**109.** Yn ôl ADSS Cymru, roedd sawl awdurdod a fu'n rhan o ymchwiliad yr Ombwdsmon ar ei liwt ei hun i anghenion gofalwyr wedi mynegi ansicrwydd ynghylch y canlynol:

> *"… how the investigation was initiated, including the rationale for selecting the carers' service theme and the criteria used to identify participating councils. In practice, this made it challenging for local teams to respond effectively to information requests, which were extensive and issue at short notice, often with limited accompanying guidance.*[120]

[117] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Yr Athro Naomi Creutzfeld
[118] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2025, paragraff 63
[119] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2025, paragraff 65
[120] Llythyr gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i'r Pwyllgor Cyllid, 20 Mehefin 2025

**110.** Aeth ADSS Cymru ymlaen i ddweud:

> *"... clearer communication around purpose, methodology, and opportunities for engagement would have supported greater mutual understanding and more meaningful contributions."*[121]

**111.** Dywedodd AGIC:

> *"For the wider review work that the ombudsman has done, the wider investigations, I can't tell you how they selected those, so I guess that suggests an answer to your question. Perhaps there could be more transparency."*[122]

**112.** Aeth AGIC ymlaen i ddweud eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn ddigonol ac yn cael cyfle i fynegi barn ond nad ydynt yn siŵr sut y mae penderfyniad [i gynnal adolygiad] yn cael ei wneud.[123]

**113.** Mewn llythyr at y Pwyllgor, nododd yr Ombwdsmon fod darn o waith "gwersi a ddysgwyd" wedi'i gwblhau yn dilyn pob un o'r ymchwiliadau ehangach ar ei liwt ei hun er mwyn "mireinio a gwella ein proses o fewn cyfyngiadau'r gofynion deddfwriaethol presennol". Darparodd yr Ombwdsmon grynodeb o ganlyniadau dysgu, a oedd yn cynnwys:

- Gwelliannau i ymgysylltiad cychwynnol â chyrff sydd dan ymchwiliad i roi eglurder ar y broses a sicrhau bod disgwyliadau yn cael eu deall.
- Gwelliannau i'r ffordd y mae canfyddiadau yn cael eu hadrodd mewn modd cryno, a'u hategu gan adroddiadau atodol sy'n cynnwys crynodeb o'r dystiolaeth y dibynnwyd arni a'r dadansoddiad ohoni.
- Y potensial i ganolbwyntio cwmpas ymchwiliadau'r Ombwdsmon ar ei liwt ei hun i raddau mwy yn y dyfodol fel bod modd cynnal ymchwiliadau yn fwy effeithlon a darparu capasiti i gwblhau mwy o ymchwiliadau gan ddefnyddio'r pŵer hwn.[124]

**114.** Er bod y ddogfen ymgynghori a'r adroddiad dilynol yn darparu sail resymegol ynglŷn â pham y dewiswyd pwnc penodol, roedd yr Ombwdsmon yn cydnabod y gellid rhannu mwy o wybodaeth am y broses ystyried ehangach. Fel rhan o'i

[121] Llythyr gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i'r Pwyllgor Cyllid, 20 Mehefin 2025
[122] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
[123] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
[124] Llythyr gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i'r Pwyllgor Cyllid, 30 Mai 2025

phroses o gasglu tystiolaeth ar gyfer ymchwiliadau ar ei liwt ei hun, eglurodd yr Ombwdsmon y gallai wneud y canlynol:

> *"… have more open conversations, possibly, about what are the options for us with our next investigations, what are the advantages and disadvantages of pursuing different lines. So, I think that's something we can certainly reflect on and consider when we start now looking at our next investigation. Because there are topics we consider but then don't pursue; obviously, we make a choice to go down one particular avenue."*[125]

## Barn y Pwyllgor

**115.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod Deddf 2019 wedi rhoi pwerau priodol i'r Ombwdsmon gynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun. Fodd bynnag, rydym yn pryderu nad yw'r pwerau hyn yn cael eu defnyddio'n llawn yn unol â'r bwriad, ac y gallai'r Ombwdsmon wneud defnydd mwy beiddgar o'r pŵer hwn.

**116.** Yn benodol, rydym yn pryderu mai dim ond dau ymchwiliad ar ei liwt ei hun sydd wedi'u cwblhau gan yr Ombwdsmon ers i Ddeddf 2019 ddod i rym. Er ein bod yn derbyn bod elfen o ddysgu bob amser wrth ddefnyddio pwerau newydd, mae'n amlwg bod ombwdsmyn eraill wedi datblygu prosesau cyflymach sy'n caniatáu iddynt gynnal nifer fwy o ymchwiliadau ar eu liwt eu hunain. Yn ôl cyfaddefiad yr Ombwdsmon ei hun, mae'r ymchwiliadau ar ei liwt ei hun a gwblhawyd wedi cymryd gormod o amser, ac rydym yn annog yr Ombwdsmon i ystyried ffyrdd o symleiddio'r broses heb golli uniondeb y darpariaethau.

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ombwdsmon yn adolygu'r broses ar gyfer cynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun ac yn nodi unrhyw feysydd y gellid eu symleiddio er mwyn caniatáu i'r ymchwiliad gael ei gwblhau o fewn amserlenni byrrach.

**117.** Rydym yn cydnabod y pryderon a nodwyd gan randdeiliaid ynglŷn â diffyg diffiniad penodol o "gamweinyddu systemig" yn Neddf 2019 ac effaith bosibl hyn ar allu'r Ombwdsmon i gynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun mewn rhai amgylchiadau. Fodd bynnag, rydym yn fodlon bod dull yr Ombwdsmon o gyflawni'r dyletswyddau hyn o dan Ddeddf 2019 yn lliniaru'r risg hon.

**118.** Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gymysg ynglŷn â'r broses ymgynghori dau gam ar gyfer ymchwiliadau'r Ombwdsmon ar ei liwt ei hun. Dywedodd rhai

[125] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2025, paragraffau 81 ac 82

rhanddeiliaid fod angen symleiddio'r broses tra bod eraill yn pwysleisio ei phwysigrwydd i sicrhau tegwch gweithdrefnol.

**119.** Clywsom fod yr Ombwdsmon wedi nodi gwersi a ddysgwyd o ymchwiliadau ar ei liwt ei hun blaenorol a allai hwyluso proses ymgynghori dau gam fwy effeithlon heb yr angen i ddiwygio Deddf 2019. Felly, rydym o'r farn y dylid treialu ac adolygu'r cynigion i symleiddio'r gweithdrefnau ymgynghori, fel y'u nodwyd gan yr Ombwdsmon, wrth gynnal yr ymchwiliad ar ei liwt ei hun nesaf. Mae'r Pwyllgor yn credu y gallai'r addasiadau hyn hefyd leihau'r amser sydd ei angen i gynnal ymchwiliad yr Ombwdsmon ar ei liwt ei hun a allai, yn ei dro, ddarparu mwy o gapasiti i'r Ombwdsmon gynnal mwy o ymchwiliadau ar ei liwt ei hun bob blwyddyn.

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ombwdsmon yn ystyried symleiddio'r broses ymgynghori ar gyfer ymchwiliadau ar ei liwt ei hun, fel y nodwyd o wersi a ddysgwyd o ymchwiliadau blaenorol, a'i bod yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar gynnydd erbyn iddi gyflwyno ei hamcangyfrif ar gyfer 2027-28.

**120.** Clywsom hefyd sut y gallai cylch gwaith â mwy o ffocws ar gyfer ymchwiliadau'r Ombwdsmon ar ei liwt i hun yn y dyfodol sicrhau bod modd cwblhau ymchwiliadau yn gyflymach, gan y byddai'n galluogi cyhoeddi adroddiad yr Ombwdsmon tra bod y mater dan sylw yn parhau i fod yn destun pryder. Mae'r dull hwn yn debyg i arddull ymchwiliadau a gynhelir gan ombwdsmyn neu sefydliadau eraill sydd wedi cynhyrchu adroddiadau byrrach er budd y cyhoedd, a allai hefyd gael eu cyfeirio at awdurdodau lleol neu fyrddau iechyd eraill ac nid at yr awdurdod sy'n destun yr ymchwiliad yn unig. Byddai ymchwiliadau'r Ombwdsmon ar ei liwt ei hun â ffocws mwy pendant hyn hefyd yn ategu unrhyw ymchwiliadau eang ar ei liwt ei hun a gynhelir ar yr un pryd gan yr Ombwdsmon.

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ombwdsmon yn myfyrio ar ddull gweithredu swyddfeydd ombwdsmyn eraill o ran cynnal ymchwiliadau ar eu liwt eu hunain ac yn ystyried sut y gallai gynnal ymchwiliadau mewn ffordd fwy ystwyth.

**121.** Rydym yn croesawu'r cadarnhad bod gan yr Ombwdsmon y gyllideb i gynnal nifer uwch o ymchwiliadau ar ei liwt ei hun ac y bydd cyflogi swyddog data newydd yn cynorthwyo'r Ombwdsmon yn y cyswllt hwn. Fodd bynnag, nodwn y dystiolaeth a ddaeth i law sy'n dangos bod problemau'n ymwneud â chyflwyno data o sectorau eraill sydd y tu hwnt i reolaeth yr Ombwdsmon.

**122.** Mae'r Pwyllgor yn nodi pryderon am y potensial i'r Ombwdsmon ddyblygu gwaith eraill wrth gynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun, ac rydym yn fodlon â'r

broses a gyflwynwyd gan yr Ombwdsmon i liniaru'r risg hon. Serch hynny, rydym yn annog yr Ombwdsmon i barhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid cyn cynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun er mwyn sicrhau nad yw gwaith yn cael ei ddyblygu.

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ombwdsmon yn parhau i ymgysylltu'n gynnar â rhanddeiliaid wrth gynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun, er mwyn nodi ac atal unrhyw ddyblygu gwaith gyda sefydliadau eraill.

**123.** Rydym yn nodi awgrymiadau'r Ombwdsmon y dylid cyfeirio unrhyw argymhellion perthnasol sy'n deillio o ganfyddiadau ymchwiliadau ar ei liwt ei hun at awdurdodau tebyg eraill er mwyn sicrhau bod arferion gorau yn cael eu dilyn ledled Cymru. Rydym hefyd yn cydnabod y byddai gallu'r Ombwdsmon i gyfeirio argymhelliad yn y modd hwn yn gofyn am newid i Ddeddf 2019. Fodd bynnag, credwn y gallai'r Ombwdsmon fabwysiadu'r dull hwn yn anffurfiol drwy hysbysu awdurdodau perthnasol am argymhellion a'u hannog i roi newidiadau ar waith. Credwn fod hwn yn ateb pragmatig a chymesur a fyddai'n codi safonau heb yr angen am ragor o newid deddfwriaethol.

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ombwdsmon, fel mater o egwyddor, yn rhannu adroddiadau cyhoeddedig ymchwiliadau ar ei liwt ei hun gydag awdurdodau perthnasol heblaw'r rhai sy'n destun yr ymchwiliad, a'i bod yn eu hannog i weithredu unrhyw argymhellion a wneir.

**124.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod nifer o randdeiliaid yn ansicr pam y dewiswyd y materion a ystyriwyd gan yr Ombwdsmon ar gyfer ymchwiliad ar ei liwt ei hun, a'u bod yn credu bod angen gwella tryloywder y broses hon. Rydym yn croesawu'r ffaith bod yr Ombwdsmon wedi myfyrio ar y mater hwn ac wedi cytuno y gellid gwneud mwy i hysbysu rhanddeiliaid am y broses o wneud penderfyniadau. Yn benodol, rydym yn annog yr Ombwdsmon i dreialu'r gwersi a ddysgwyd o'r ymchwiliadau ar ei liwt ei hun blaenorol a gynhaliwyd hyd yn hyn fel rhan o ymchwiliadau yn y dyfodol. Dylai hyn gynnwys cyhoeddi crynodeb byr yn egluro pam y dewiswyd y pwnc, ac arolwg i geisio barn rhanddeiliaid ar y broses ddethol.

**Argymhelliad 9.** Wrth gyhoeddi canfyddiadau ymchwiliadau ar ei liwt ei hun, mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ombwdsmon, fel mater o drefn, hefyd yn cynnwys:

- esboniad o pam y dewiswyd pwnc yr ymchwiliad ar ei liwt ei hun; ac
- arolwg i bennu barn rhanddeiliaid ar y broses o ddewis y pwnc sy'n destun ymchwiliad.

# 5. Effeithiolrwydd gallu'r Ombwdsmon i ymchwilio i driniaeth feddygol breifat mewn llwybr gofal iechyd cyhoeddus/preifat

**125.** Rhoddodd Deddf 2019 bŵer ategol i'r Ombwdsmon i ymchwilio i faterion yn ymwneud â gwasanaethau cysylltiedig ag iechyd preifat mewn cwyn llwybr cyhoeddus/preifat.[126]

**126.** O dan Ddeddf 2005, roedd gan yr Ombwdsmon awdurdodaeth i ymchwilio mewn achosion pan mae'r GIG yn comisiynu triniaeth feddygol breifat i gleifion, ond nid pan fydd triniaeth o'r fath yn cael ei chomisiynu gan gleifion eu hunain.[127]

**127.** Amcangyfrifodd Asesiad Effaith Rheoleiddiol Bil 2019 fod tua un y cant o gwynion y sector iechyd (neu saith achos) sy'n dod i law bob blwyddyn yn cynnwys elfen sy'n gysylltiedig ag iechyd preifat, gyda'r gost amcangyfrifedig yn £3,507 y flwyddyn neu £17,535 dros y cyfnod arfarnu pum mlynedd.[128]

## Defnyddio'r pŵer i ymchwilio i driniaeth feddygol breifat

**128.** Dywedodd yr Ombwdsmon nad yw'r pŵer i ymchwilio i ofal iechyd preifat wedi'i ddefnyddio eto gan nad yw'r Ombwdsmon wedi cael unrhyw gwynion sydd wedi bodloni'r gofynion a nodir gan y Ddeddf sy'n cyrraedd y trothwy ymchwilio.[129]

**129.** Pan ofynnwyd i'r Ombwdsmon a yw'r trothwy ar gyfer ymchwilio i ofal meddygol preifat yn galluogi ei bŵer i ymchwilio i ofal iechyd preifat, dywedodd:

> *"Rydym o'r farn bod y trothwy yn briodol ac yn gydnaws â rôl OGCC i ystyried cwynion am wasanaethau cyhoeddus a sicrhau gwelliannau iddynt. Credwn fod y trothwy presennol yn parhau i fod yn addas at y diben ac yn angenrheidiol, pe baem yn dod ar draws sefyllfa lle mai dim ond drwy ymchwilio i ofal iechyd y maent wedi'i ariannu eu hunain hefyd y gallwn ymchwilio i gŵyn dinesydd am ofal iechyd y GIG yn effeithlon neu'n llwyr."*[130]

---

[126] Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, adran 16
[127] Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru), Memorandwm Esboniadol, tudalennau 20-21
[128] Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru), Memorandwm Esboniadol, tudalen 109
[129] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
[130] Llythyr gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i'r Pwyllgor Cyllid, 30 Mai 2025

**130.** Hyd yn hyn, mae'r Ombwdsmon wedi cofnodi wyth achos yn ymwneud â darparwyr gofal iechyd preifat. Cafodd dau ohonynt eu cau yn ystod cyfnod ymholiad y broses. Cafodd y chwech arall eu hasesu a phenderfynodd yr Ombwdsmon na alla fynd â nhw ymhellach.[131]

**131.** Pan ofynnwyd i'r Ombwdsmon a ddylid cadw'r pŵer, pwysleisiodd bwysigrwydd y pŵer hwn:

> *"… credwn yn gryf fod y rhesymeg dros gadw'r pŵer hwn yn parhau i fod mor gadarn ag erioed. Gydag effeithiau parhaus pandemig COVID19, pwysau cynyddol ar y GIG a mwy o ddinasyddion yn talu am rai elfennau o'u gofal wrth wynebu amseroedd aros hir, mae'n bosibl eto y bydd nifer fach o achosion lle bydd angen ymchwilio i elfennau o ofal iechyd preifat fel rhan o'n [34] hymchwiliad i ofal iechyd yn y GIG. Yn hynny o beth, credwn fod y pŵer hwn yn parhau i fod yn bwysig o ran sicrhau mynediad at gyfiawnder i ddinasyddion Cymru."*[132]

**132.** Ychwanegodd swyddog yr Ombwdsmon:

> *"Clearly, our role is to look at public services, and the way the provision is framed means we can only look at that private element of healthcare if we can only completely and effectively investigate the NHS care by also looking at that private element. So, we think it's really important, and firmly believe that the power should remain in place."*[133]

**133.** Esboniodd y swyddog sut y mae'r pŵer yn diogelu'r Ombwdsmon ar gyfer y dyfodol ar adeg pan mae rhagor o bobl yn croesi rhwng gofal y GIG a gofal preifat, ac yna efallai'n mynd yn ôl.[134]

**134.** Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet â'r Ombwdsmon fod y sail resymegol dros gadw'r pŵer mor gryf ag erioed.[135]

---

[131] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 30 Ebrill 2025, paragraff 114
[132] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
[133] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 30 Ebrill 2025, paragraff 113
[134] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 30 Ebrill 2025, paragraff 116
[135] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip i'r Pwyllgor Cyllid, 11 Mehefin 2025

**135.** Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol fod y sail resymegol dros gadw'r pŵer yn ymwneud â gofal iechyd yn parhau i fod yn berthnasol ac y "dylai alluogi dull cydlynol o ystyried gofal iechyd sy'n cynnwys darpariaeth sector preifat".[136]

**136.** Pan ofynnwyd iddo pam y dylid cadw'r pŵer er nad yw'n cael ei ddefnyddio, dywedodd yr NIPSO:

> *"Sometimes, I think, when the ombudsman gets new powers, it takes a while. It takes a while for them to bed in. It takes a while for complaints to come through that have that element to it. And to be honest, it takes a while for the public to know that it's there and that they can use it. So, there can be a whole number of reasons why."*[137]

**137.** O ran pwysigrwydd cadw'r pŵer i ymchwilio i ddarparwyr gofal iechyd preifat mewn amgylchiadau penodol a chyfyngedig, dywedodd y cyn-Ombwdsmon:

> *"… there has been a pretty big post-pandemic increase in waiting lists—you will have more people in Wales who might be turning to the private sector and coming back to the public sector. We need to make sure that, if anything does go wrong there and there is a need for investigation, you can follow the citizen's whole journey."*[138]

**138.** Dywedodd cynrychiolydd o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro fod gan y pwerau i ymchwilio i ofal iechyd preifat gyfyngiadau gwirioneddol, gan egluro:

> *"I think this is difficult in the way it's written in the Act because somebody has to receive private treatment that is linked to a public health service, and I think that makes it somewhat limited, then, to actually be able to undertake that level of investigation. Because you will, as you've just demonstrated, get a very piecemeal investigation, because there's only a certain part that will fall under jurisdiction to be investigated."*[139]

[136] Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Pwyllgor Cyllid, 19 Mehefin 2025
[137] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion 7 Mai 2025, paragraff 83
[138] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion 7 Mai 2025, paragraff 131
[139] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2025, paragraff 189

**139.** Nododd cynrychiolydd o AGIC fod y sefyllfa yn ymwneud â gofal iechyd a ddarperir gan y sector annibynnol braidd yn flêr. Eglurodd ei fod yn hoffi syniad yr egwyddor ond efallai bod rhywfaint o le i wella.[140]

**140.** Fodd bynnag, eglurodd swyddog yr Ombwdsmon fod y trefniadau presennol yn briodol:

> *"Our focus is on public services, so we feel that's right, really. Where we can't effectively and completely investigate NHS care and treatment, we should be able to look at that private care element."*[141]

**141.** Ychwanegodd y swyddog:

> *"… we do think it's really important to keep it in there and futureproof us as an organisation, particularly with pressures on health services. It gives us that flexibility, we think. So, our view is that the provision is right as it is and we don't need to seek amendment on that. But obviously we respect the views that have been given to the committee."*[142]

**142.** Derbyniodd swyddog yr Ombwdsmon fod materion yn ymwneud â mynd ar drywydd cwynion gofal iechyd preifat ar draws ffiniau, ac y gellid mynd i'r afael â nhw:

> *"I think the private healthcare power differs. When the NHS commissions care in England, of course we can look at it, because we follow the money there, and we can look at the care that the Welsh NHS has paid for and delivered through that contracting arrangement. That's different in a private element when the citizen is purchasing that."*[143]

**143.** Esboniodd y swyddog:

> *"On NHS cases, we have the powers in the legislation to work jointly with the Parliamentary and Health Service Ombudsman, when we feel that's appropriate. And even when we don't feel we need to formally investigate together, we can work closely on cases. I don't believe they have the equivalent power in*

[140] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2025, paragraffau 190 a 192
[141] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2025, paragraff 98
[142] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2025, paragraff 98
[143] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 30 Ebrill 2025, paragraff 118

> *England as we do in Wales. So, they wouldn't be able to join that loop when they feel there's that private element of care, in the middle of a case in England, so there is potentially that gap, yes, I think so."*[144]

**144.** Gofynnwyd i'r swyddog am y broses sydd ar gael i unigolion sy'n teimlo nad oes ganddynt unrhyw ddewis ond cael defnyddio gwasanaethau gofal iechyd preifat. Yn ôl y swyddog, wrth graffu ar Fil 2019, ystyriwyd llawer o dystiolaeth gan gyrff iechyd preifat ynghylch prosesau cwyno. Daeth y swyddog i'r casgliad:

> *"… I think our focus is on the public services aspect of our role. We feel the link with that NHS-related care is appropriate because of that."*[145]

## Barn y Pwyllgor

**145.** Rydym yn cydnabod nad yw'r Ombwdsmon wedi defnyddio'r pŵer yn Neddf 2019 eto i ymchwilio i faterion yn ymwneud â thriniaeth feddygol breifat mewn llwybr gofal iechyd cyhoeddus/preifat gan nad yw'r swyddfa wedi cael cwyn sy'n bodloni'r trothwy gofynnol eto. Serch hynny, rydym o'r farn y dylai'r Ombwdsmon gadw'r pŵer hwn pe bai'n derbyn cwyn a brofir yn y maes hwn.

**146.** Nodwn fod rhai o'r rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon am y broses o gynnal ymchwiliadau o dan y ddarpariaeth hon. Fodd bynnag, gan nad yw'r pwerau hyn wedi cael eu profi'n ymarferol, nid yw'r Pwyllgor wedi'i argyhoeddi bod angen gwneud newidiadau.

**147.** Clywodd y Pwyllgor y gallai cynnydd yn nifer y cleifion sy'n defnyddio opsiynau gofal iechyd preifat arwain at fwy o gwynion sy'n cyrraedd y trothwy gofynnol ar gyfer ymchwiliad. Fodd bynnag, nes bod mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o'r pŵer hwn, credwn y dylid cadw'r *status quo*, gan gynnwys cadw'r trothwy i'r Ombwdsmon i ymchwilio i'r llwybr hwn.

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Ombwdsmon gadw'r pŵer i ymchwilio i faterion yn ymwneud â gwasanaethau cysylltiedig ag iechyd preifat mewn cwyn llwybr cyhoeddus/preifat nes bod digon o dystiolaeth uniongyrchol yn cael ei derbyn i awgrymu bod angen newid.

[144] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2025, paragraff 100
[145] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2025, paragraff 110

# 6. Gwaith safonau cwynion

**148.** Mae Deddf 2019 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon gyhoeddi datganiad o egwyddorion yn ymwneud â gweithdrefnau ymdrin â chwynion y cyrff o fewn ei awdurdodaeth,[146] fel y'u rhestrir yn Atodlen 3 i Ddeddf 2019 (yr 'awdurdodau rhestredig')[147]. Mae hefyd yn galluogi'r Ombwdsmon i gyhoeddi gweithdrefnau trin cwynion enghreifftiol ar gyfer yr awdurdodau rhestredig, yn ogystal â monitro eu hymdriniaeth o gwynion.[148]

**149.** Nod Awdurdod Safonau Cwynion yr Ombwdsmon yw ysgogi gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus drwy weithio gyda chyrff cyhoeddus o fewn ei awdurdodaeth i:

- gefnogi delio â chwynion yn effeithiol;
- casglu a chyhoeddi data;
- cyflwyno pecynnau hyfforddi pwrpasol.[149]

**150.** Mewn perthynas â'r Awdurdod Safonau Cwynion, dywedodd yr Athro Chris Gill ei bod yn ymddangos bod y pwerau hynny wedi cael eu defnyddio'n effeithiol a'u bod yn cwmpasu'r rhan fwyaf o wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Fodd bynnag, ychwanegodd:

> *"I think there's definitely more work to be done in relation to how we can make use of complaints data and performance around complaint handling across the Welsh public services."*[150]

**151.** Nododd Ysgrifennydd y Cabinet fod yr Ombwdsmon wedi arfer y pwerau yn ymwneud â safonau cwynion yn llwyddiannus a'r canfyddiad yw bod gweithdrefnau'r awdurdodau rhestredig ar gyfer ymdrin â chwynion wedi gwella. Aeth Ysgrifennydd Cabinet ymlaen i ddweud:

> *"Fodd bynnag, nodwn hefyd fod lle i wella o hyd, gan gynnwys yn Llywodraeth Cymru wrth gwrs, ac mae'n bwysig cynnal ac*

[146] Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, Rhan 4
[147] Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, Atodlen 3)
[148] Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol, 2019/20
[149] Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Awdurdod Safonau Cwynion
[150] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2025, paragraff 30

> *atgyfnerthu'r cynnydd sydd wedi'i wneud yn ystod y blynyddoedd diwethaf."*[151]

**152.** Dywedodd yr Ombwdsmon fod cyfran y cwynion am ddulliau ymdrin â chwynion sy'n cyrraedd ei swyddfa wedi codi o naw y cant yn 2019/20 i 18 y cant yn 2022/23, cyn gostwng i 12 y cant yn 2024/25. Dywedodd yr Ombwdsmon fod y gostyngiad yn nifer y cwynion am ymdrin â chwynion "yn ddangosydd cyffredinol da bod ein pwerau Awdurdod Safonau Cwynion yn cael effaith gadarnhaol".[152] Nododd yr Ombwdsmon y byddai'n hoffi gweld y ffigur hwn yn cael ei ostwng eto ond nododd ei fod yn dangos camau i'r cyfeiriad cywir o ran bod cyrff yn ymdrin â chwynion yn well.[153]

**153.** Pan ofynnwyd i'r Ombwdsmon a yw gwaith y swyddfa yn y maes hwn wedi arwain at lai o gwynion yn cael eu gwneud i'r swyddfa, eglurodd yr Ombwdsmon:

> *"The issue isn't necessarily fewer coming through; the issue for us, the real test, is the intervention rate. Because if those cases are coming through because people remain dissatisfied with the outcome.*[154]

**154.** Eglurodd yr Ombwdsmon y byddai'r swyddfa yn hoffi gweld y cyfraddau ymyrraeth yn parhau i ddisgyn gan y byddai hynny yn dynodi cynnydd yn ansawdd gwaith ymdrin â chwynion y cyrff cyhoeddus hynny. Daeth i'r casgliad canlynol:

> *"… in terms of where we're at now compared to where we were four years ago, before the powers were enacted, it's a much better position, yes."*[155]

## Cwmpas polisi cwynion enghreifftiol

**155.** Ar hyn o bryd, mae 54 o ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru yn defnyddio'r polisi cwynion enghreifftiol, gan gynnwys pob cyngor lleol, pob Bwrdd Iechyd, Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a'r rhan fwyaf o

[151] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip i'r Pwyllgor Cyllid, 11 Mehefin 2025
[152] Llythyr gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i'r Pwyllgor Cyllid, 30 Mai 2025
[153] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2025, paragraff 114
[154] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2025, paragraff 115
[155] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2025, paragraff 116

Gymdeithasau Tai.[156] Mae'r rhain yn cynrychioli tua 85 y cant o'r cwynion sy'n dod i law'r Ombwdsmon. Ychwanegodd yr Ombwdsmon:

> *"Ein nod yw dod â gweddill y Cymdeithasau Tai i'r broses enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon."*[157]

**156.** Nododd yr Ombwdsmon fod "meysydd arwyddocaol o wasanaethau cyhoeddus nad ydynt wedi'u cynnwys ar hyn o bryd yn cynnwys Meddygon Teulu, Deintyddion, Fferyllwyr, Optometryddion, Cynghorau Tref a Chymuned a Llywodraeth Cymru". Mae'r Ombwdsmon wedi ymrwymo i bennu amserlen ar gyfer cynnwys y cyrff hyn yn y cynllun erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.[158]

**157.** Nododd cynrychiolydd o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro fod y polisi cwynion enghreifftiol a'r Awdurdod Safonau Cwynion yn uchafbwyntiau'r ddeddfwriaeth. Hefyd, nododd y cynrychiolydd bwysigrwydd datrys cwynion yn gynnar, a ategir gan hyfforddiant yr Awdurdod Safonau Cwynion.[159]

## Defnyddio a chasglu data ymdrin â chwynion

**158.** Nododd yr Ombwdsmon mai un o fanteision arwyddocaol gwaith yr Awdurdod Safonau Cwynion yw "argaeledd data cwynion rheolaidd, dibynadwy a chymharol ar draws y sector cyhoeddus".[160]

**159.** Cyhoeddodd yr Ombwdsmon ddata cwynion ar gyfer cynghorau lleol am y tro cyntaf yn 2021/22. Ers hynny, mae'r Ombwdsmon wedi cyhoeddi data ar gwynion yr ymdriniwyd â hwy gan gynghorau lleol, Byrddau Iechyd Cymru ac Ymddiriedolaethau Iechyd Cymru; cyhoeddir y data ddwywaith y flwyddyn.[161] Dywedodd yr Ombwdsmon:

> *"… we've got a good process in place for how we collate data from public bodies, and how we publish that data. And we've developed that and used it over a number of years with health bodies and local councils. So, that's in place. And consultation with public bodies, and sharing information in advance of*

[156] Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Awdurdod Safonau Cwynion Cymru, Chwefror 2020
[157] Llythyr gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i'r Pwyllgor Cyllid, 30 Mai 2025
[158] Llythyr gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i'r Pwyllgor Cyllid, 30 Mai 2025
[159] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2025, paragraff 106
[160] Llythyr gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i'r Pwyllgor Cyllid, 30 Mai 2025
[161] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

> *publication, is part of that, so there are no surprises for anyone."*[162]

**160.** Esboniodd yr Ombwdsmon:

> *"Mae'r data hwn yn ein galluogi i ddeall sut mae cyrff cyhoeddus yn delio â chwynion a pha gyfran o gwynion a ystyrir gan sefydliad sy'n cael eu huwchgyfeirio i OGCC. Mae hwn yn ddangosydd da o ba mor effeithiol yw sefydliad wrth ddatrys cwynion."*[163]

**161.** Eglurodd yr Ombwdsmon fod data yn canolbwyntio ar nifer y cwynion ac amseroldeb cwynion ar hyn o bryd ond nododd:

> *"… over time, we will probably develop further the complaints data that we collect, but I think we have to be proportionate in terms of what we're asking public bodies to collect in terms of where we're at now."*[164]

**162.** Clywsom hefyd sut y mae'r Ombwdsmon yn casglu ac yn cyhoeddi data yn ei hadroddiad blynyddol sy'n dangos teimladau a phrofiad pobl o wneud cwynion. Esboniodd fod y data hwn yn cynnig:

> *"… quite a rounded picture about what's happening in complaint handling in the public sector in Wales. But there's a lot more work to do, and it might be, in the future, we will want to gather more data from public bodies. But, at the moment, our focus is trying to bring more public bodies into the complaint standards scheme."*[165]

**163.** Nododd yr Athro Gill sawl pryder yn ymwneud â data ar ymdrin â chwynion, a dywedodd fod y data sy'n cael ei gasglu yn canolbwyntio'n bennaf ar niferoedd ac amseroldeb, ac efallai ei fod yn hepgor data ar weithredu gweithdrefnau cwynion. Dywedodd hefyd y gallai'r pwyslais ar amseroldeb roi gormod o bwyslais ar faterion effeithlonrwydd a phrosesu gweinyddol ar draul meincnodau ansawdd, a chododd bryderon am sut y gellid mesur ansawdd data meintiol.[166]

[162] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2025, paragraff 135
[163] Llythyr gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i'r Pwyllgor Cyllid, 30 Mai 2025
[164] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2025, paragraff 119
[165] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2025, paragraffau 120 a 121
[166] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2025, paragraffau 77-79

**164.** Dywedodd fod yr Awdurdod Safonau Cwynion wedi bod yn fuddiol ond daeth i'r casgliad bod prinder tystiolaeth ynglŷn â'r hyn sydd wedi deillio o'r pŵer safonau cwynion, gan nodi:

> *"The evidence base is extremely limited for what, in practice, has been really achieved for people as a result of these powers coming in."*[167]

**165.** O hyn ymlaen, awgrymodd yr Athro Gill y gallai fod yn ddefnyddiol casglu a chyhoeddi data boddhad gan gyrff cyhoeddus ledled y wlad mewn ffordd sy'n sicrhau bod modd cymharu'r data ledled y wlad.[168]

**166.** Cyfeiriodd Cartrefi Cymunedol Cymru at broblemau cychwynnol yn ymwneud â chyhoeddi'r set gyntaf o ddata gan gymdeithasau tai ym mis Rhagfyr 2024. Dywedodd:

> *"… the data collection process can improve and strengthen relationships between housing associations and PSOW, which will in turn, drive better complaint handling processes."*[169]

**167.** Ychwanegodd Cartrefi Cymunedol Cymru nad yw'n glir i bob cymdeithas tai sut y bydd yr Ombwdsmon yn defnyddio'r data sy'n cael ei gasglu.[170]

**168.** Dywedodd Beacon Group Cymru ei fod wedi cael profiad cadarnhaol gyda'r Ombwdsmon, gyda chyfathrebu amserol a staff yr Ombwdsmon yn ymateb yn dda i heriau a beirniadaeth. Fodd bynnag, aeth ymlaen i ddweud:

> *"There has been an issue where data was mispresented online which led to that data being reported unfavourably in the media. Consultation between PSOW and HAs prior to publication could have prevented this, so perhaps greater coordination would be beneficial in future."*[171]

**169.** Derbyniodd yr Ombwdsmon nad oedd y broses ar gyfer cyhoeddi data ar gyfer cymdeithasau tai wedi'i dilyn oherwydd camgymeriad gan ei swyddfa hi yn ystod y cyfnod ymgynghori a rhannu gwybodaeth cyn cyhoeddi'r data.

---

[167] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2025, paragraff 87
[168] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2025, paragraff 78
[169] Y Pwyllgor Cyllid, Gwybodaeth Ychwanegol: Cartrefi Cymunedol Cymru
[170] Y Pwyllgor Cyllid, Gwybodaeth Ychwanegol: Cartrefi Cymunedol Cymru
[171] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Beacon Group Cymru

Cadarnhaodd fod y data wedi cael ei dynnu'n ôl wedi hynny ac y rhoddwyd ymddiheuriadau.[172]

**170.** Eglurodd yr Ombwdsmon sut y mae'r swyddfa wedi dysgu o'r camgymeriad hwn er mwyn sicrhau na fydd yr un sefyllfa yn codi eto. Roedd hyn yn cynnwys mwy o ymgysylltu â chymdeithasau tai a'u prif weithredwyr er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r data a fydd yn cael ei gyhoeddi cyn y dyddiad cyhoeddi.[173]

**171.** Yn eu tystiolaeth wreiddiol, nododd Cartrefi Cymunedol Cymru fod y data wedi'i gyhoeddi ar ffurf tablau cynghrair[174], fodd bynnag, nododd yr Ombwdsmon nad ydynt yn gwneud hynny o gwbl.[175] O ganlyniad, cywirodd Cartrefi Cymunedol Cymru eu tystiolaeth ysgrifenedig i adlewyrchu'r ffaith mai'r cyfryngau a gyhoeddodd y data ar ffurf tabl cynghrair, ac nid yr Ombwdsmon.[176]

## Adborth

**172.** Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad, mae swyddfa'r Ombwdsmon yn nodi bod 97 y cant o'r swyddogion cwynion a ymatebodd i'r arolwg eleni yn cytuno bod yr Ombwdsmon wedi darparu canllawiau o ansawdd da ar ymdrin â chwynion a bod 79 y cant yn cytuno bod yr Ombwdsmon yn darparu hyfforddiant o ansawdd da ar ymdrin â chwynion.[177]

**173.** Yn ôl adroddiad a gomisiynwyd gan yr Ombwdsmon:

> *"Soniodd rhanddeiliaid am lefelau uchel o ymgysylltu a boddhad â'r hyfforddiant a ddarperir gan OGCC yn y maes hwn. Teimlwyd bod yr hyfforddiant yn helpu sefydliadau i gadw at y Safonau Cwynion yn well yn ogystal â gwella dealltwriaeth staff o brosesau OGCC."*[178]

**174.** Fodd bynnag, er bod y gwaith ymchwil hwn yn ddefnyddiol, dywedodd yr Athro Gill ei fod yn canolbwyntio'n bennaf ar brif weithredwyr cyrff cyhoeddus yng Nghymru. Dywedodd:

[172] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2025, paragraff 135
[173] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2025, paragraff 136
[174] Llythyr gan Cartrefi Cymunedol Cymru i'r Pwyllgor Cyllid, 17 Gorffennaf 2025
[175] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2025, paragraff 137
[176] Gwybodaeth ychwanegol gan Cartrefi Cymunedol Cymru
[177] Y Pwyllgor Cyllid, ymateb i'r Ymgynghoriad: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
[178] Y Pwyllgor Cyllid, ymateb i'r Ymgynghoriad: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

> *"... that's a very limited perspective, and it was also a very small sample. So, I don't feel that we have a huge amount of evidence to go on."*[179]

**175.** Nododd yr Ombwdsmon nad oedd yn cytuno â sylwadau'r Athro Gill o ystyried yr ymgynghoriad helaeth â rhanddeiliaid sy'n cael ei gynnal bob blwyddyn ac yr adroddir arno yn adroddiad blynyddol yr Ombwdsmon. Esboniodd yr Ombwdsmon:

> *"... that annual research covers complaints officers within public bodies, advice and advocacy groups, complainants, so a random sample of people who brought complaints to us during the year, and then we do wider surveys of the public through random surveys. So we actually do quite a wide range of consultation. It's not just chief executives."*[180]

**176.** Aeth yr Ombwdsmon ymlaen i ddweud y canlynol:

> *"What we did do this year for the first time was include a sample, admittedly a small sample, of chief execs from public bodies in our work, and that's because I felt it was important we understood their strategic perspective about the impact of our work on their organisations and how they deal with their customers. That work was valuable, and we'll continue with that. So, it was a random selection. I don't know who was interviewed, and we value the feedback that we got. And then we also did some additional work around the third sector. So I don't accept that we don't do extensive consultation. I feel that we do."*[181]

## Barn y Pwyllgor

**177.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r gwaith sydd wedi cael ei wneud gan swyddfa'r Ombwdsmon mewn perthynas â'i gwaith safonau cwynion, yn enwedig mewn perthynas â'r Awdurdod Safonau Cwynion. Mae'r adborth cadarnhaol gan randdeiliaid a'r dystiolaeth a ddarparwyd gan yr Ombwdsmon yn dangos bod y darpariaethau hyn yn Neddf 2019 yn gweithio'n dda. Rydym hefyd yn nodi ymrwymiad yr Ombwdsmon i ostwng ymhellach nifer y cwynion sy'n ymwneud

[179] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2025, paragraff 87
[180] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2025, paragraff 123
[181] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2025, paragraff 124

ag ymdrin â chwynion, a bydd y mater hwn yn cael ei adolygu'n barhaus fel rhan o'n gwaith craffu blynyddol ar yr Ombwdsmon.

**Argymhelliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod swyddfa'r Ombwdsmon yn parhau â'i gwaith o ddatblygu'r Awdurdod Safonau Cwynion er mwyn lleihau ymhellach nifer y cwynion sy'n ymwneud ag ymdrin â chwynion.

**178.** O ran gwelliannau, mae'r Pwyllgor yn galw ar yr Ombwdsmon i adolygu'r mathau o ddata sy'n cael eu casglu gan y swyddfa wrth ymdrin â chwynion. Yn benodol, credwn y dylai'r adolygiad hwn ganolbwyntio ar sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng data meintiol ac ansoddol er mwyn sicrhau bod y data a gesglir yn rhoi'r darlun llawn ac yn gweithredu fel sylfaen gadarn ar gyfer nodi meysydd eraill i'w gwella.

**Argymhelliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ombwdsmon yn adolygu'r data sy'n cael ei gasglu fel rhan o'r gwaith ar yr Awdurdod Safonau Cwynion, gan ganolbwyntio ar y cydbwysedd rhwng data meintiol ac ansoddol er mwyn sicrhau bod y data a gesglir yn rhoi'r darlun llawn ac yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer nodi meysydd eraill i'w gwella.

**179.** O ran casglu a chyhoeddi data, nodwn fod rhai problemau cychwynnol wedi dod i'r amlwg wrth gyhoeddi rhywfaint o'r data a gasglwyd. Fodd bynnag, rydym yn croesawu'r camau a gymerwyd gan yr Ombwdsmon i gywiro'r gwall hwn ac i sicrhau nad yw'n cael ei ailadrodd.

**180.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod gwaith ymchwil a gomisiynwyd gan yr Ombwdsmon mewn perthynas â'r Awdurdod Safonau Cwynion yn dangos bod rhanddeiliaid yn fodlon â'r cymorth a gawsant gan yr Ombwdsmon o ran ymdrin â chwynion a hyfforddiant yn y maes. Fodd bynnag, rydym hefyd yn nodi bod un rhanddeiliad wedi codi pryderon ynglŷn â'r sampl a ddefnyddiwyd ar gyfer y gwaith ymchwil hwn. Mae'r Pwyllgor ar ddeall bod yr Ombwdsmon wedi penderfynu ymgymryd â'r gwaith ymchwil hwn heb dderbyn cais i wneud hynny, ac rydym yn croesawu'r dull rhagweithiol hwn o geisio adborth. Fodd bynnag, oherwydd y pryderon a godwyd, credwn y dylai'r sampl a ddefnyddir ar gyfer unrhyw waith ymchwil yn y dyfodol fod yn fwy ac y dylai gynnwys demograffig ehangach er mwyn sicrhau bod y dystiolaeth a ddaw i law mor gadarn ac ystyrlon â phosibl.

**Argymhelliad 13.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod unrhyw waith ymchwil yn ymwneud ag ymdrin â chwynion sy'n cael ei wneud gan yr Ombwdsmon yn y dyfodol yn seiliedig ar samplau mwy ac yn adlewyrchu demograffig ehangach er mwyn cryfhau'r dystiolaeth a ddaw i law fel sylfaen ar gyfer unrhyw welliannau.

# 7. Materion eraill

## Rhannu gwybodaeth

**181.** Dywedodd AGIC ei bod yn cynnal uwchgynadleddau gofal iechyd ddwywaith y flwyddyn sy'n darparu platfform i alluogi trafodaeth rhwng cyrff archwilio, arolygu, rheoleiddio a gwella.[182] Yn ystod yr uwchgynadleddau hyn, mae'r Ombwdsmon yn rhannu gwybodaeth a chanfyddiadau gan sefydliadau fel AGC, Archwilio Cymru, a Llywodraeth Cymru. Dywedodd AGIC fod yr uwchgynadleddau yn gyfle pwysig i'r Ombwdsmon rannu canfyddiadau ei gwaith amrywiol.[183]

**182.** Pan ofynnwyd iddi sut y gallai cyfranogiad yr Ombwdsmon yn yr uwchgynhadleddau gofal iechyd ddylanwadu ar unrhyw brosesau gwneud penderfyniadau ar gyfer ymchwiliadau yn y dyfodol, nododd yr Ombwdsmon nad yw'n achosi unrhyw wrthdaro i ni o ran dewis pynciau. Eglurodd:

> *"… we've tended to use those own initiative powers on non-health topics because health is very well represented in our case load. But just by participating in those summits, I don't see any conflict in terms of the appropriateness of our investigations. We're certainly not sharing or actively engaging with them as part of ongoing investigations, it's more that intelligence gathering about current or future issues that may be of interest to us and vice versa."*[184]

**183.** Cyfeiriodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro at rwydwaith Cymru gyfan o'r enw rhwydwaith yr Ombwdsmon sy'n ystyried adroddiadau budd y cyhoedd. Er bod y rhwydwaith yn cynnwys byrddau iechyd yn unig ar hyn o bryd, nododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro fwriad y rhwydwaith i dyfu a chynnwys cyrff cyhoeddus eraill o bosibl.[185]

**184.** Roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro hefyd yn croesawu'r gwelliannau i lyfr achosion yr Ombwdsmon ers i Ddeddf 2019 ddod i rym gan ei fod yn darparu:

> *"… summary of all of the cases where they've been upheld, because sometimes there's lots of learning that sits there, and*

---

[182] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
[183] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2025, paragraff 155
[184] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2025, paragraffau 146 a 147
[185] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2025, paragraffau 137 a 141

> *it's not necessarily something that's gone into the public domain, but it is learning that's applicable across all organisations. So, that's certainly something that we look at when that's published as well, and I think that's really developed a lot as well."*[186]

**185.** Fodd bynnag, cododd rhai rhanddeiliaid bryderon am sut y mae'r Ombwdsmon yn cyflwyno gwybodaeth am ganfyddiadau ymchwiliadau. Wrth gyfeirio at ymchwiliad yr Ombwdsmon ar ei liwt ei hun i anghenion gofalwyr, meddai ADSS Cymru:

> *"… the format and tone of the resulting report – combined with short response times and limited space for dialogue – led to concerns that the conclusions did not fully reflect the context or progress made on the ground."*[187]

**186.** Er mwyn lledaenu gwybodaeth i'r cyhoedd am waith yr Ombwdsmon, awgrymodd yr Athro Naomi Creutzfeldt y dylai'r Ombwdsmon ystyried defnyddio datganiad i'r wasg hawdd ei ddeall neu fan penodol ar gyfer rhannu'r datganiad â'r cyfryngau.[188]

**187.** Cadarnhaodd yr Ombwdsmon fod pob penderfyniad yn cael ei gyhoeddi ar wefan yr Ombwdsmon, a bod y swyddfa yn cyhoeddi datganiadau i'r wasg ochr yn ochr ag adroddiadau er mwyn rhoi gwybod i'r cyfryngau am waith y swyddfa gan nad oes diben cwblhau'r adroddiadau hyn a'u cadw'n gyfrinachol wedyn. Yn ogystal, cadarnhaodd yr Ombwdsmon fod adroddiadau'n cael eu rhannu ag Aelodau o'r Senedd a chyrff perthnasol eraill.[189]

**188.** Dywedodd yr Ombwdsmon fod y dull hwn yn arwain at ymateb da gan y cyfryngau:

> *"… we will get requests for media interviews and we will get coverage in print and online publications as well. So, we feel that that's quite a strong part of what we do, and obviously all of that information, reports and press releases, are then published on our website as well."*[190]

[186] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2025, paragraff 138
[187] Llythyr gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i'r Pwyllgor Cyllid, 20 Mehefin 2025
[188] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2025, paragraff 68
[189] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2025, paragraffau 149 a 150
[190] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2025, paragraff 149

## Gwaharddiad statudol

**189.** Mae adran 13 o Ddeddf 2005 yn atal yr Ombwdsmon rhag ystyried cwyn y gellid ei hystyried mewn llys barn. Felly, os oes gan achwynydd hawl neu rwymedi i fynd i'r llys, mae'r rhagdybiaeth o blaid yr achwynydd yn dilyn y llwybr hwnnw. Er hynny, mae gan yr Ombwdsmon ddisgresiwn i osod y gofyniad hwn o'r neilltu, ar sail achosion unigol.[191]

**190.** Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, mae'r Ombwdsmon yn nodi y byddai cael gwared ar y gwaharddiad hwn "yn cryfhau hyder y cyhoedd yn ein swyddfa ymhellach ac yn arwain at fwy o fynediad at gyfiawnder i ddinasyddion Cymru".[192]

**191.** Nododd swyddog yr Ombwdsmon:

> *"As things stand, last year, about 7 per cent of our cases that we closed we declined to investigate on the basis that the statutory bar was there and a legal remedy was there."*[193]

**192.** O ystyried y gost ychwanegol bosibl i'r pwrs cyhoeddus, nododd yr Archwilydd Cyffredinol ei bryder bod dileu'r gwaharddiad statudol yn golygu bod gan achwynwyr ddewis o rwymedi (y llysoedd neu'r Ombwdsmon) yn ogystal â dau rwymedi i'w dilyn. Ychwanegodd yr Archwilydd Cyffredinol:

> *"… fel yr ydym yn ei ddeall, nid yw'r bar statudol yn berthnasol os yw'r Ombwdsmon yn fodlon nad yw'n rhesymol disgwyl i'r person droi at y llys, nid ydym yn siŵr bod achos brys dros gael gwared ar y bar statudol."*[194]

**193.** Fel rhan o'i adroddiad ar Ystyried Pwerau'r Ombwdsmon, daeth Pwyllgor Cyllid y Bedwaredd Senedd i'r casgliad na ddylid gwneud unrhyw newidiadau i'r gwaharddiad statudol, gan gyfeirio at gymhwysedd, ond argymhellodd y dylai Llywodraeth Cymru archwilio'r materion gyda Llywodraeth y DU fel rhan o drafodaethau ar ddatganoli yn y dyfodol.[195] Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet, hyd y gallai ei weld, nad oes unrhyw drafodaethau o'r fath wedi'u cynnal.[196]

---

[191] Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru), Memorandwm Esboniadol, tudalen 140
[192] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
[193] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 30 Ebrill 2025, paragraff 48
[194] Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Pwyllgor Cyllid, 19 Mehefin 2025
[195] Y Pwyllgor Cyllid, Ystyried Pwerau: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Mai 2015
[196] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip i'r Pwyllgor Cyllid, 11 Mehefin 2025

## Ehangu awdurdodaeth i ysgolion

**194.** Mae cylch gwaith yr Ombwdsmon mewn perthynas â chwynion am ysgolion wedi'i gyfyngu'n bennaf i brosesau derbyn a gwahardd disgyblion a phenderfyniadau apelau. Esboniodd swyddog yr Ombwdsmon:

> *"We can look at some complaints relating to admission procedures and school exclusion procedures. And also we can look at how a local education authority might have stepped in at the very end of the process. But our role is very limited and in no way would we be looking at interfering in curriculum issues, school processes."*[197]

**195.** Ychwanegodd y swyddog:

> *"… the fact is that, in every other area of devolved public services in Wales, there is that independent complaints handling body that people can go to when they reach the end of that complaints process. And as things stand, schools don't fall wholly within our jurisdiction in that sense. So, that availability and access to justice for people across the public service isn't there."*[198]

**196.** Er bod Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol yn ystyried cwynion am addysg bellach ac addysg uwch yng Nghymru, dywedodd yr Ombwdsmon:

> *"… nid oes mynediad cyfatebol i gorff ymdrin â chwynion annibynnol a diduedd mewn perthynas â chwynion am ysgolion a phenderfyniadau cyrff llywodraethu yng Nghymru."*[199]

**197.** Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol y gallai ymestyn awdurdodaeth yr Ombwdsmon i'r ystod lawn o gwynion mewn ysgolion arwain at gynnydd mewn cwynion ac awgrymodd y dylid cael amcangyfrif o'r cynnydd rhag ofn y bydd y cynnig yn arwain at ddefnydd sylweddol o adnoddau'r Ombwdsmon. Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol:

> *"… byddai'n ddoeth ystyried sut y byddai rôl arfaethedig yr Ombwdsmon yn cyd-fynd â swyddogaethau Estyn, er mwyn*

[197] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 30 Ebrill 2025, paragraff 48
[198] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 30 Ebrill 2025, paragraff 52
[199] Y Pwyllgor Cyllid, ymateb i'r Ymgynghoriad: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

> *sicrhau cydlynu ac osgoi defnyddio arian cyhoeddus i waith sy'n gorgyffwrdd."*[200]

**198.** Dywedodd yr NIPSO:

> *"Schools are one of those things where the relationship's really important, because if parents complain, and it is primarily parents, their children are still at the school. So, actually, really good complaints handling in school is really important, because you can destroy relationships."*[201]

**199.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet, er y gallai Llywodraeth Cymru weld manteision ehangu'r awdurdodaeth mewn perthynas ag ysgolion, byddai angen ystyried cryn dipyn o faterion. Dywedodd:

> *"Byddai Llywodraeth Cymru yn awyddus i ystyried ei safbwynt ymhellach pe bai hyn i'w ddilyn."*[202]

**200.** Er bod yr Ombwdsmon wedi cyfeirio at y posibilrwydd o ehangu ei hawdurdodaeth i gynnwys ysgolion[203], nododd swyddog yr Ombwdsmon nad oes unrhyw waith modelu wedi'i wneud hyd yn hyn i benderfynu ar yr effaith y gallai'r ychwanegiad hwn ei chael ar lwyth achosion yr Ombwdsmon:

> *"We haven't done any specific modelling ourselves of what any likely case load might be for us in Wales, but from discussions with colleagues in Northern Ireland, we know that when they took on this new role, it did form 10 per cent of their case load, so quite a substantive area of work."*[204]

**201.** Roedd y swyddog yn rhagweld y byddai rôl yr Ombwdsmon yn eistedd ochr yn ochr â sefydliadau sydd â rôl yn y maes hwn ar hyn o bryd, ond na fyddai'n dyblygu ymdrechion:

> *"... we would see our role and remit being exactly as we do every day—looking at complaints of alleged maladministration and personal injustice, which we think is different to what, perhaps, Estyn does in that, as the inspectorate in Wales. And in exactly*

---

[200] Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Pwyllgor Cyllid, 19 Mehefin 2025
[201] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion 7 Mai 2025, paragraff 88
[202] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip i'r Pwyllgor Cyllid, 11 Mehefin 2025
[203] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
[204] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2025, paragraff 152

*the same way as we currently sit alongside Care Inspectorate Wales and HIW by providing individuals with redress, we leave the inspectorate work to them and share our reports of interest with them."*[205]

## Barn y Pwyllgor

**202.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r eglurhad ynglŷn â sut y mae'r Ombwdsmon yn trosglwyddo ac yn rhannu gwybodaeth a data gyda rhanddeiliaid.

**203.** Nodwn fod rhai rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon am y dulliau a ddefnyddir gan yr Ombwdsmon i ledaenu canfyddiadau ymchwiliadau, ac y gellid gwneud mwy i sicrhau sylw yn y cyfryngau ar gyfer y gwaith sy'n cael ei wneud.

**204.** Er ein bod yn croesawu'r ffaith bod gan yr Ombwdsmon gynllun y cyfryngau er mwyn sicrhau'r sylw mwyaf posibl i adroddiadau'r swyddfa, mae'r Pwyllgor yn credu y dylai fod yn destun adolygiad pellach er mwyn sicrhau bod y dull hwn yn parhau i fod mor effeithiol â phosibl.

**Argymhelliad 14.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ombwdsmon yn adolygu ei strategaeth ar gyfer ymwneud â'r cyfryngau er mwyn sicrhau cymaint o sylw â phosibl wrth gyhoeddi adroddiadau a sicrhau bod canfyddiadau'r Ombwdsmon yn cyrraedd cynulleidfa ehangach ac yn cael cymaint o effaith â phosibl.

**205.** Mae'r Pwyllgor yn nodi y byddai'r Ombwdsmon yn hoffi dileu'r gwaharddiad statudol er mwyn caniatáu i'r swyddfa ymchwilio i gwynion sydd y tu allan i gwmpas ei phwerau ar hyn o bryd. Fodd bynnag, oherwydd y materion cymhwysedd deddfwriaethol posibl a nodwyd mewn tystiolaeth a dderbyniwyd yn y gorffennol, rydym o'r farn y byddai angen trafodaethau pellach ar rinweddau'r cynnig hwn a gwaith datblygu cyn y gellid symud y mater hwn yn ei flaen neu cyn i'r Senedd allu craffu arno'n briodol. Credwn y dylai'r Ombwdsmon ymgysylltu ymhellach â Llywodraeth Cymru ar y mater hwn a rhoi gwybod i'r Senedd am y cynnydd.

**206.** Dywedodd nifer o randdeiliaid y dylid ehangu awdurdodaeth yr Ombwdsmon i'r ystod lawn o gwynion yn ymwneud ag ysgolion, fel sy'n wir am bwerau'r ombwdsmon mewn awdurdodaethau eraill. Er bod y Pwyllgor yn cydnabod y manteision a fyddai'n deillio o hyn, credwn fod angen gwneud rhagor o waith cyn y gall y Pwyllgor lunio barn bendant ar y mater.

[205] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2025, paragraff 152

**207.** Yn benodol, byddem yn annog yr Ombwdsmon i ymgymryd ag ymarferiad modelu i bennu effaith ehangu'r pwerau ar lwyth achosion, a fydd hyn yn arwain at gostau ychwanegol, ac unrhyw effaith bosibl ar ysgolion wrth gyflwyno newidiadau pe bai'r Ombwdsmon yn cadarnhau'r gŵyn.

**Argymhelliad 15.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ombwdsmon yn ymgymryd ag ymarferiad modelu i bennu effaith ehangu awdurdodaeth ei swyddfa i gynnwys cwynion yn ymwneud ag ysgolion a bod hyn yn cynnwys dadansoddi goblygiadau o ran llwyth achosion neu oblygiadau ariannol, ac yn rhannu'r canfyddiadau hyn erbyn hydref 2026.

**208.** Mae'r Pwyllgor yn nodi nad yw'r Ombwdsmon wedi ymgymryd ag ymarferiad modelu i bennu effaith bosibl y cyfrifoldebau ychwanegol hyn ar lwyth achosion ei swyddfa. Rydym yn annog yr Ombwdsmon i weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddeall y pwysau hwn cyn symud ymlaen â'r mater hwn.

**Argymhelliad 16.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ombwdsmon yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddeall goblygiadau ymarferol ehangu awdurdodaeth yr Ombwdsmon i gwmpasu cwynion yn ymwneud ag ysgolion, ac yn rhannu'r canfyddiadau hyn erbyn hydref 2026.

# 8. Cost a gwerth am arian

## Costau a manteision

**209.** Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol nad yw'n bosibl mesur manteision Deddf 2019 mewn ffordd gynhwysfawr neu ddibynadwy, "heb sôn am eu cysylltu â chostau penodol".[206]

**210.** O ran cost yr Ombwdsmon, nododd yr Archwilydd Cyffredinol mai dim ond costau yn eu crynswth y gellir eu hystyried yn hytrach na chost swyddogaethau penodol. Dywedodd:

> *"Cynyddodd cost yr Ombwdsmon, o ran alldro refeniw net cyn addasiad ar gyfer chwyddiant, 19% rhwng 2019-20 a 2023-24 (gydag amrywiadau sylweddol i fyny ac i lawr rhwng blynyddoedd unigol penodol): £5,736,000 yn 2023-24 o £4,181,000 yn 2019-20. Fodd bynnag, mae'r cynnydd mewn termau real (h.y. wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant gan ddefnyddio'r dadchwyddwr CMC) wedi bod yn eithaf cymedrol ar 0.28%. Mae hyn yn awgrymu bod unrhyw fanteision y ddeddfwriaeth newydd wedi cael eu cyflawni gan ychydig o gynnydd mewn costau mewn termau real."*[207]

**211.** Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi barnu bod Asesiad Effaith Rheoleiddiol Bil 2019 yn "rhesymol", ac ar ôl caniatáu am chwyddiant, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol fod yr amcangyfrif o gost flynyddol ychwanegol "yn rhy uchel yn hytrach nag yn rhy isel, ond byddai'n ymddangos bod hynny'n adlewyrchu dull darbodus".[208]

**212.** Yn ei hymateb ysgrifenedig, ystyriodd yr Ombwdsmon a yw'r cydbwysedd rhwng gwariant a darpariaeth wedi bod yn briodol, a daeth i'r casgliad hwn:

> *"Credwn y bu'r cydbwysedd yn briodol, yn enwedig yng nghyd-destun llwythi achosion sy'n parhau ar draws y sefydliad. Mae OGCC wedi adrodd yn flynyddol i'r Pwyllgor ar berfformiad ac ar y gwaith o reoli cyllid ac mae ein Cyfrifon Blynyddol wedi bod yn ddiamod drwy gydol y cyfnod hwn. Mae'r gwahaniaeth*

---

[206] Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Pwyllgor Cyllid, 19 Mehefin 2025
[207] Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Pwyllgor Cyllid, 19 Mehefin 2025
[208] Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Pwyllgor Cyllid, 19 Mehefin 2025

*rhwng y gwariant cyllidebol a'r gwariant gwirioneddol wedi'i ddychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru ar ddiwedd y flwyddyn."*[209]

**213.** Nododd yr Ombwdsmon ei bod yn anodd penderfynu a yw wedi sicrhau unrhyw arbedion effeithlonrwydd sydd â chysylltiad uniongyrchol â'r pwerau yn Neddf 2019. Fodd bynnag, eglurodd sut y mae'r swyddfa wedi mabwysiadu nifer o arbedion effeithlonrwydd er mwyn ymdrin â'r llwyth achosion cynyddol a'r pwerau newydd. Roedd hyn yn cynnwys arbedion effeithlonrwydd ym maes TG, lleihau maint y swyddfa a datblygu'r wefan er mwyn darparu mwy o gyfleusterau hunanwasanaeth a chyfeirio er mwyn atal pobl nad oes ganddynt gwynion dilys rhag cysylltu â thimau'r swyddfa. Daeth i'r casgliad:

*"… there's a number of things that we've done; it's very hard to pin them to the new powers specifically, but they are across the office, and they've helped us deal with both the proactive powers and the reactive work we have to do on case load."*[210]

## Darpariaethau archwilio

**214.** Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol mai'r darpariaethau ar gyfer archwilio yn Neddf 2019 yw'r "gorau mewn unrhyw ddeddfwriaeth yng Nghymru", ac aeth ymlaen i ddweud eu bod yn:

*"… darparu ar gyfer trefniadau synhwyrol ar gyfer delio ag oedi anochel mewn archwilio ac ar gyfer ystyriaeth barhaus gymesur ynghylch a yw'r Ombwdsmon wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian. Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r model hwn yn cael ei gymhwyso'n ehangach mewn deddfwriaeth."*[211]

## Costau anuniongyrchol

**215.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn datgan y bydd awdurdodau rhestredig, fel y'u rhestrir yn Atodlen 3 o'r Bil, yn cael eu heffeithio gan y darpariaethau yn y Bil a'u bod yn debygol o ysgwyddo costau ychwanegol. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn amcangyfrif y byddai costau parhaus anuniongyrchol yn amrywio o £236,025 i £359,100 dros bum mlynedd ar gyfer cyrff ac eithrio'r Ombwdsmon. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi:

[209] Llythyr gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i'r Pwyllgor Cyllid, 30 Mai 2025
[210] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2025, paragraff 159
[211] Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Pwyllgor Cyllid, 19 Mehefin 2025

> *"Mae'r costau 'anuniongyrchol' parhaus hyn yn ymwneud â'r cynnydd a amcangyfrifir yn nifer yr achosion a wneir i'r Ombwdsmon ac oddi wrth bwy y gofynnir am wybodaeth cyn ac yn ystod ymchwiliadau llawn."*[212]

**216.** Mewn llythyr at y Pwyllgor, dywedodd yr Ombwdsmon:

> *"Nid ydym wedi asesu'r effaith y mae'r Ddeddf wedi'i chael o ran costau anuniongyrchol ar gyrff cyhoeddus ac nid ydym wedi ymgysylltu â nhw ynghylch eu costau. Fel yr amlinellwyd yn ein cyflwyniad tystiolaeth, mae Hyfforddiant yr Awdurdod Safonau Cwynion a ddarparwyd gan OGCC wedi arbed tua £1M i gyrff cyhoeddus dros y cyfnod hwnnw. Ar ben hynny, maent yn siarad yn gadarnhaol am werth ac effaith yr hyfforddiant, y cyngor a'r gefnogaeth honno gan OGCC."*[213]

**217.** Esboniodd yr Ombwdsmon nad yw'r swyddfa wedi ymgymryd â gwaith i asesu cost ariannol Deddf 2019 i gyrff cyhoeddus oherwydd bod ganddynt gyfrifoldeb statudol eisoes i ymdrin â chwynion. Ychwanegodd fod gwaith yr Ombwdsmon yn canolbwyntio ar wneud y broses o ymdrin â chwynion yn fwy cyson a chydlynol ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.[214]

**218.** Esboniodd yr Ombwdsmon mai diben pŵer safonau cwynion yn Neddf 2019 yw creu mwy o effeithlonrwydd:

> *"… if those complaints are dealt with better, earlier, at the first point of contact, then that's more efficient; we can actually develop public services that are more responsive—there's an efficiency there, rather than things being handled badly at that first point of contact and then having to go through several other stages, and consume public resources in doing so."*[215]

## Barn y Pwyllgor

**219.** Yn unol â Deddf 2019 a'r Rheolau Sefydlog, mae'r Pwyllgor yn gwneud gwaith craffu ariannol manwl ar amcangyfrif, ceisiadau am gyllideb atodol a chyfrifon yr Ombwdsmon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. O ganlyniad i'r gwaith craffu hwn, mae'r Pwyllgor wedi gwneud sawl argymhelliad y dylai'r Ombwdsmon

[212] Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru), Memorandwm Esboniadol, tudalen 51
[213] Llythyr gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i'r Pwyllgor Cyllid, 30 Mai 2025
[214] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2025, paragraffau 154 a 155
[215] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Gorffennaf 2025, paragraff 156

feintioli costau a manteision y pwerau newydd yn Neddf 2019 yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon a'r Amcangyfrif.[216]

**220.** Mae'r Pwyllgor yn nodi tystiolaeth yr Ombwdsmon nad oes modd nodi'r costau gwirioneddol sy'n deillio'n uniongyrchol o Ddeddf 2019 na sut y mae arbedion effeithlonrwydd ehangach a gyflwynwyd gan yr Ombwdsmon o ganlyniad i Ddeddf 2019 wedi effeithio ar wariant cyffredinol yr Ombwdsmon. Mae hyn yn siomedig o ystyried ein hargymhellion blaenorol ar y mater. Serch hynny, rydym yn croesawu'r dystiolaeth nad yw cyflwyno Deddf 2019 wedi creu llawer o gostau. Rydym wedi ein calonogi hefyd gan dystiolaeth sy'n dangos bod Deddf 2019 wedi sicrhau arbedion cost oherwydd gwaith yr Ombwdsmon yn datblygu ac yn cyflwyno'r Awdurdod Safonau Cwynion.

**221.** Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod rhai o'r amcanestyniadau o gostau yn y Memorandwm Esboniadol yn uwch na'r costau gwirioneddol, ac y gallai hyn roi'r argraff bod Deddf 2019 wedi arwain at fwy o arbedion cost. Felly, rhaid inni ddehongli'r arbedion cost hyn gyda rhywfaint o ofal oherwydd y posibilrwydd eu bod wedi deillio o'r ffaith fod yr Ombwdsmon wedi cynnal llawer llai o ymchwiliadau ar ei liwt ei hun nag y rhagwelwyd, a'r ffaith fod y cynnydd yn y llwyth achosion yn llai nag y rhagwelwyd yn hytrach nag oherwydd arbedion cost gwirioneddol.

**Casgliad 4.** Oherwydd y ffaith nad yw rhai o ddarpariaethau Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 wedi'u defnyddio'n llawn eto, mae'r Pwyllgor yn dod i'r casgliad nad oes modd penderfynu a yw'r Ddeddf wedi darparu gwerth am arian wrth gyflawni ei hamcanion, ac y bydd y materion hyn yn parhau i fod yn destun craffu yn ystod ein sesiynau blynyddol gyda'r Ombwdsmon yn edrych ar y gyllideb a goruchwyliaeth.

[216] Craffu Blynyddol ar waith Ombwdsmon Gwasanaethau Cymru, Tachwedd 2022, tudalen 19

# Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.

Cyflwynodd y tystion canlynol dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar gael ar wefan y Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **30 Ebrill 2025** | **Michelle Morris, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus,** Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru<br>**Katrin Shaw, Prif Gynghorydd Cyfreithiol a Chyfarwyddwr Ymchwiliadau,** Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru |
| **7 Mai 2025** | **Andrew Crawford, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Dros Dro yr Alban,** Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban<br>**Margaret Kelly,** Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Iwerddon<br>**Ger Deering,** Ombwdsmon a Chomisiynydd Gwybodaeth Iwerddon<br>**Nick Bennett, Cyn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru,** Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru |
| **4 Mehefin 2025** | **Alun Jones, Prif Weithredwr,** Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru<br>**Angela Hughes,** Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro<br>**Yr Athro Chris Gill, Athro Gwasanaethau Cyfreithiol-Gymdeithasol,** Prifysgol Glasgow<br>**Yr Athro Naomi Creutzfeldt, Athro'r Gyfraith a Chymdeithas,** Prifysgol Caint |
| **9 Gorffennaf 2025** | **Michelle Morris, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus,** Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru<br>**Katrin Shaw, Prif Gynghorydd Cyfreithiol a Chyfarwyddwr Ymchwiliadau,** Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru |

# Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Cyflwynodd y bobl a'r sefydliadau canlynol dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r Ymgynghoriad, a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol, ar gael ar wefan y Pwyllgor.

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **PPSOWA1** | Ombwdsmon Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru |
| **PPSOWA2** | Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru/ Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog |
| **PPSOWA3** | Unigolyn |
| **PPSOWA4** | Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT) |
| **PPSOWA5** | Beacon Group Cymru |
| **PPSOWA6** | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban |
| **PPSOWA7** | Cyngor Sir Ynys Môn |
| **PPSOWA8** | Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| **PPSOWA9** | Nick Bennett (Cyn-Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru) |
| **PPSOWA10** | Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd |
| **PPSOWA11** | Cymdeithas yr Ombwdsmyn |
| **PPSOWA12** | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Iwerddon |

## Gwybodaeth Ychwanegol

| Teitl | Dyddiad |
|---|---|
| Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru | 16 Mai 2025 |
| Naomi Creutzfeldt, Athro'r Gyfraith a Chymdeithas, Ysgol y Gyfraith Caint. Prifysgol Caint | 5 Mai 2025 |
| Chris Gill, Athro Astudiaethau Cyfreithiol-Gymdeithasol, Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Glasgow | 18 Mai 2025 |

| Teitl | Dyddiad |
|---|---|
| Cartrefi Cymunedol Cymru | 17 Gorffennaf 2025 |
| Cadeirydd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS Cymru) | 24 Mehefin 2025 |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru | 19 Mehefin 2025 |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Iwerddon | 14 Mai 2025 |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | 24 Ebrill 2025 |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Dros Dro yr Alban | 18 Mehefin 2025 |